Gweinyddiaeth CYFIAWNDER

Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr

Tystiolaeth a Segmentu NOMS

Dogfen gymar i Bwriadau Comisiynu o 2014

Tabl Rheoli Fersiynau		
Fersiwn	**Rheswm am Gyhoeddi / Newidiadau**	**Dyddiad**
P1.0	Cyhoeddiad cyntaf.	14-10-2013

Cynnwys

1. Rhagarweiniad 3
2. Comisiynu ar sail tystiolaeth ..... Error! Bookmark not defined.
Diffinio tystiolaeth a sut dylai gael ei defnyddio ..... **Error! Bookmark not defined.**
Gwerthusiadau effaith ..... **Error! Bookmark not defined.**
Gwerthusiadau proses ..... **Error! Bookmark not defined.**
Pan nad oes sail tystiolaeth 5
3. Defnyddio gwybodaeth segmentu i gyfoethogi comisiynu 6
Tebygolrwydd troseddwyr o unrhyw aildroseddu 6
Tebygolrwydd o unrhyw aildroseddu treisgar 7
Tebygolrwydd o aildroseddu rhyw 7
Tebygolrwydd o aildroseddu niwediol difrifol 7
Trosedd bresennol troseddwyr 8
Hyd a math o ddedfryd troseddwyr ..... **Error! Bookmark not defined.**
Rhyw ..... **Error! Bookmark not defined.**
Oedran ..... **Error! Bookmark not defined.**
4. Y dystiolaeth o blaid Bwriadau Comisiynu o 2014 9
Amgylchedd a gwasanaethau diwylliant yn y gymuned ar gyfer troseddwyr ..... **Error! Bookmark not defined.**
Amgylchedd carcharol a diwylliant ailsefydlu effeithiol ..... **Error! Bookmark not defined.**
Ymddygiadau gan staff sy'n hybu ymataliad ..... **Error! Bookmark not defined.**
Beth sy'n gyrru aildroseddu? ..... **Error! Bookmark not defined.**
Nodweddion ymyriadau effeithiol ..... **Error! Bookmark not defined.**
Ansawdd ..... **Error! Bookmark not defined.**
Goruchwyliaeth ar sail tystiolaeth o droseddwyr yn y gymuned 18
Beth sy'n annhebygol o leihau aildroseddu? ..... **Error! Bookmark not defined.**
Troseddwyr rhyw 20
Troseddwyr treisgar 20
Troseddwyr sy'n dwyn, gan gynnwys bwrgleriaid a lladron 21
Troseddwyr cyffuriau 21
Troseddwyr moduro 21
Ymatebolrwydd ac amrywiaeth 21
Merched ..... **Error! Bookmark not defined.**
Oedolion ifanc gwrywaidd sy'n troseddu ..... **Error! Bookmark not defined.**
Carcharorion ar ddedfrydau byr (y rhai a ddedfrydwyd i lai na 12 mis o garchar) 25
Carcharorion ar ddedfrydau canolig (am oes a dedfrydau ISP) 25

1. Rhagarweiniad

Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (NOMS) yn gweithio'n barhaus i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau mae'n gyfrifol am eu comisiynu, a sicrhau bod buddsoddi yn mwyhau canlyniadau ar gyfer troseddwyr a'r cyhoedd, ac yn darparu gwerth da am arian. Fel rhan o hyn, mae NOMS wedi ymrwymo i weithio'n barhaus i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau mae'n gyfrifol am eu comisiynu, a gwella ein dealltwriaeth o beth sy'n gweithio â phwy, ac o dan ba amodau, ac i sicrhau y defnyddir y ddealltwriaeth hon i gyfoethogi comisiynu gwasanaethau troseddwyr yn effeithiol.

Mae'r ddogfen hon yn gosod allan safbwynt NOMS ar dystiolaeth, sut y dylid ei defnyddio, ac yn crynhoi'r hyn sydd yn hysbys ar hyn o bryd am effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau â gwahanol grwpiau o droseddwyr, gan ddilyn y model segmentu a gyflwynwyd gan yr Asiantaeth y llynedd. Mae'n adeiladu ar wybodaeth a gyhoeddwyd i gefnogi'r broses gomisiynu ar gyfer 2013-14. Mae hefyd yn ategu at yr hyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar, '*Gweddnewid ailsefydlu: Crynodeb o dystiolaeth ar leihau troseddu* (Cyfres Ddadansoddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2013). Diwygiwyd y ddogfen hon i gefnogi bwriadau comisiynu'r Asiantaeth o 2014, y dylid darllen y ddogfen hon gyda hwy, ac felly bu newid yn strwythur a phwyslais o Bennod Tystiolaeth Bwriadau Comisiynu'r llynedd. Bu rhai newidiadau ychwanegol neu ddiweddariadau o ganlyniad i dystiolaeth newydd yn dod i'r golwg, a rhai newidiadau bach i eirio yma ac acw o ganlyniad i adborth neu i wneud y ddogfen yn haws i'w darllen. Rydym hefyd wedi ychwanegu cyfeiriadau academaidd i gefnogi'r pwyntiau a wneir.

Strwythurwyd y dystiolaeth i adlewyrchu'r bwriadau lefel uchel a gyflwynwyd yn '*Bwriadau Comisiynu NOMS o 2014* '. Fe'i dyluniwyd yn y lle cyntaf i helpu i gyfoethogi trafod a negodi rhwng comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau gwarchodol, gan gynnwys carchardai sector cyhoeddus , wrth iddynt gytuno ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth a chontractau o 2014. Rydym yn disgwyl y bydd o ddiddordeb hefyd i randdeiliaid a phartneriaid ehangach ar draws y system cyfiawnder troseddol.

Mae'r ddogfen yn cychwyn drwy egluro sut mae NOMS yn diffinio tystiolaeth ac yn amlinellu dulliau y dylid eu cymryd lle mae diffyg tystiolaeth neu lle mae'r dystiolaeth yn amhendant. Yna, mae'n egluro yn fwy manwl y gwaith sy'n mynd rhagddo yn NOMS o segmentu'r boblogaeth droseddol a gwella dealltwriaeth o beth sy'n gweithio wrth gyflenwi gwahanol ganlyniadau ar gyfer grwpiau gwahanol. Yn olaf, mae'n gosod allan y dystiolaeth berthnasol sy'n cefnogi'r pum bwriad cyntaf o fwriadau trosfwaol lefel uchel 2014.

2. Comisiynu wedi ei gyfoethogi gan dystiolaeth

Mae NOMS wedi ei ymrwymo i gomisiynu wedi ei gyfoethogi gan dystiolaeth ac mae eisiau i'r gwasanaethau y mae'n eu comisiynu wneud gwahaniaeth real a chadarnhaol sy'n cyflenwi canlyniadau a ddymunir ar gyfer troseddwyr a'r cyhoedd. Mae bwriadau comisiynu NOMS ar gyfer 2014 yn disgrifio'n dymuniad i weld adnoddau'n ffocysu ar ymyriadau a gwasanaethau wedi eu cyfoethogi gan dystiolaeth sy'n debygol o gyflenwi'r canlyniadau gorau am y buddsoddiad. Mae hyn yn cynnwys targedu ffactorau a ddangoswyd i fod yn perthyn i'n hystod o ganlyniadau a defnyddio cynllun gwasanaetha fydd yn effeithiol gyda'r grwpiau sy'n ei dderbyn.

Mae i ymddygiad troseddol nifer o achosion, ac mae cyflawni ymatal yn fwy tebygol trwy gyfuniad o weithgareddau, gwasanaethau ac amgylchiadau cymdeithasol. Ni ddisgwylir y bydd gwasanaeth unigol yn dangos effaith ar aildroseddu bob tro heb gymryd amgylchiadau eraill bywyd troseddwr i ystyriaeth .

Diffinio tystiolaeth a sut dylai gael ei defnyddio

Mae ystod o ymchwil a thystiolaeth gwerthuso ar gael. Fodd bynnag, nid yw'r holl ymchwil o ansawdd digonol i ateb cwestiynau pwysig am effaith gwasanaethau'n ddibynadwy. Mae'r adran hon yn anelu at egluro'r gwahanol fathau o werthuso, a'r ffordd orau o'u defnyddio i gyfoethogi penderfyniadau comisiynu er mwyn sicrhau y gwarir arian cyhoeddus yn ddoeth a bod gwasanaethau'n cyflenwi'r canlyniadau iawn i droseddwyr a'r cyhoedd.

Mae **Gwerthusiadau effaith** yn archwilio i ba raddau mae gwasanaeth yn cyflawni'r canlyniadau mae'n anelu at eu cyflawni, ai gostyngiad mewn aildroseddu neu ganlyniadau canolraddol eraill. Mae NOMS yn gwerthfawrogi **tystiolaeth gwerthuso effaith** yn arbennig sy'n defnyddio grŵp cymharu cyfatebol, sampl digon mawr i ganfod effaith, a dadansoddiad ystadegol i fod yn sicr na ddigwyddodd unrhyw effaith ymddangosiadol ar hap, a thystiolaeth sydd wedi ei hadolygu gan gydweithwyr. Mae tystiolaeth gwerthuso effaith addas yn cynnwys y canlynol:

- Hapbrofion o dan reolaeth
- Astudiaethau gwerthuso sy'n cymharu'r grŵp sy'n derbyn yr ymyriad neu wasanaeth â grŵp cymharu cyfatebol priodol (gan ddefnyddio dulliau cydweddu sgoriau posibl neu dechnegau cydweddu unigolion) o droseddwyr na dderbyniodd y gwasanaeth
- Astudiaethau gwerthuso sy'n arddangos gwerth yr ymyrraeth neu wasanaeth trwy gymharu'r wir gyfradd ail ddedfrydu yn erbyn y gyfradd a ragwelwyd trwy ragfynegydd o ansawdd uchel megis OGRS[1]

Mae gwerthusiad effaith sy'n cwrdd â'r meini prawf uchod ac sy'n dangos newid positif ar ffactorau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu (gweler Tabl 1 ar dudalennau 14-16) yn brawf pwysig o werth gwasanaeth. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod astudiaethau meintiol o'r math a restrir uchod yn anodd eu cynnal,

yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg ar raddfa fach, ac felly nid ydynt efallai'n gallu arddangos mesur ystadegol o'u heffaith. O ganlyniad, fe ellir dod i gasgliadau o **ganfyddiadau cronnol ar draws nifer o astudiaethau**, er enghraifft, meta ddadansoddiadau[2], sy'n cyfuno canfyddiadau o ddwy neu fwy o astudiaethau unigol o ansawdd uchel (fel y rhai y soniwyd amdanynt uchod) i greu amcangyfrifon ystadegol o effeithiau.

Mae **Gwerthusiadau Proses** yn disgrifio pa mor dda mae ymyriad neu wasanaeth yn cael ei weithredu yn ymarferol. Mae gwerthusiadau proses yn fath pwysig o ymchwil. Gallant ddisgrifio *pam* mae ymyriadau'n gweithio neu ddim yn gweithio, a gallant nodi ansawdd y gweithredu (a elwir yn "gywirdeb triniaeth"). Mae gwerthusiadau proses yn arbennig o bwysig pan fydd ymyriad yn rhedeg ar draws gwahanol lefydd, i wybod a allwn gyfuno'r data o wahanol safleoedd ar gyfer dadansoddi canlyniadau ai peidio. Ond nid yw gwerthusiadau proses ar eu pennau eu hunain yn dweud wrthym am *ganlyniadau* ymyriad - a yw'n gweithio - ac felly mae iddynt lai o werth ar gyfer comisiynu na gwerthusiadau effaith.

Mae ymchwil meintiol o ansawdd da hefyd yn arbennig o werthfawr wrth ddeall sut mae pobl yn profi ymyriadau a gwasanaethau, natur ac effaith cyd-destun, diwylliant a modd cyflwyno ymyriadau a gwasanaethau, ac ar gyfer deall systemau cyfain megis carchardai. Lle **cynhelir ymchwil ansoddol yn unol â safonau trwyadl**, ac sy'n defnyddio technegau ansoddol cydnabyddedig i ddod i gasgliadau, dylai hyn gael ei gymryd i ystyriaeth. Nid ystyrir bod astudiaethau ansoddol nad ydynt yn cydymffurfio â'r meini prawf hyn, astudiaethau achos llwyddiannus neu dystlythyrau ac adroddiadau anecdotaidd yn arddangos tystiolaeth o effeithiolrwydd ac felly ni allant, ar eu pennau eu hunain, gael eu defnyddio fel tystiolaeth ar gyfer comisiynu gwasanaethau,

Pan nad oes sail tystiolaeth

Fel mae Tabl 1 (gweler tudalennau 14-16) yn dangos, mae meysydd lle mae sail tystiolaeth yn gyfyngedig neu'n esblygu. Yn yr achosion hyn, cymeradwyir bod:

- Disgrifiad clir o'r gwasanaeth yn cael ei roi, gan gynnwys ar gyfer pwy y cyflenwir ef a'r canlyniadau y mae'n anelu at eu cyflawni
- Sail resymegol eglur a chredadwy pam y dylai'r gwasanaeth weithio. Dylai'r sail resymegol gynnwys cyfeiriad at dystiolaeth gyhoeddedig o ansawdd uchel sy'n cefnogi'r dull a ddefnyddir. Mae NOMS yn croesawu dulliau arloesol sydd wedi eu profi'n llai aml, ond dylent o hyd fod yn seiliedig ar fodel damcaniaethol credadwy o newid
- Strategaeth mewn lle ar gyfer casglu tystiolaeth ynghylch a yw'r gwasanaeth yn gweithio, gan ddefnyddio methodoleg o ansawdd uchel

Bydd NOMS yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr i ddatblygu a gwella'r sail tystiolaeth ar bob canlyniad a rhannu ein safbwynt mewn perthynas â'r dystiolaeth hon. Trwy ei Bwyllgor Ymchwil Cenedlaethol, sy'n cynghori ar gynigion ymchwil a'u cymeradwyo[3], byddwn yn anelu at wella ansawdd ymchwil ac felly'n gwella'r sail tystiolaeth y gallwn ei ddefnyddio i gomisiynu.

Mae Pwyllgor Ymchwil Cenedlaethol NOMS yn gweithio i sicrhau bod ymchwil a gynhelir â throseddwyr o ansawdd digonol.

3. Defnyddio gwybodaeth segmentu i oleuo comisiynu

Mae segmentu'n rhaglen barhaus o waith, a arweinir gan Grŵp Comisiynu Strategaethau NOMS, sy'n datblygu a chyfuno'r dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio wrth gyflenwi gwahanol ganlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau. Mae segmentu hefyd yn rhoi darlun cyffredin o nodweddion perthnasol y boblogaeth droseddol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i gomisiynwyr a darparwyr fel gallant ddefnyddio'r dystiolaeth er mwyn buddsoddi mewn gwasanaethau sy'n fwyaf tebygol o gyflenwi gwell canlyniadau a gwerth am arian.

Gan hynny, mae segmentu'n cefnogi NOMS wrth gyflenwi gwasanaethau effeithiol o ansawdd sy'n goleuo tystiolaeth (Bwriad Comisiynu rhif 3) drwy sicrhau bod cyflenwi yn cyfateb i'r boblogaeth, diben a chanlyniadau NOMS (Bwriad Comisiynu rhif 4).

Mae NOMS yn bwriadu datblygu ei ddull segmentu flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan sicrhau bod y dull yn:

- Darparu teclynnau hyblyg sy'n caniatáu i gomisiynwyr a darparwyr dorri eu data mewn gwahanol ffyrdd i ateb cwestiynau gwahanol
- Adlewyrchu blaenoriaethau a datblygiadau gweithredol a chyfundrefol, megis alinio'r Rhaglen Gweddnewid Adsefydlu ac Ailgyflunio'r Ystâd Garcharol
- Eglur a thryloyw
- Defnyddio lle mae'n bosibl offer asesu a data sydd ar gael yn lleol
- Galluogi'r sail tystiolaeth i gael ei gyfateb â chyflenwi
- Hybu ymchwil newydd sy'n ehangu'n dealltwriaeth o anghenion troseddwyr a sut i weithio'n effeithiol i'w hateb

O 2014, byddwn yn anelu at ddarparu gwybodaeth ar gyfer pob carchar sy'n disgrifio'r boblogaeth yn nhermau'r wyth ffactor a ddisgrifir isod:

Tebygolrwydd troseddwyr o gael ail euogfarn

Ar hyn o bryd, mesurir hyn gan ddefnyddio'r Sgôr Ail Euogfarnu Grwpiau Troseddu (OGRS). Byddwn yn segmentu drwy ddefnyddio pum band sgorio a ddefnyddiwyd yn y rownd comisiynu ar gyfer 2013-14[1]. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ymyriadau a gwasanaethau'n fwy tebygol o effeithio ar aildroseddu ar gyfer y rheiny yn y bandiau risg canol a gallai gynyddu aildroseddu ar gyfer y rheiny y mae eu tebygolrwydd o unrhyw

[1] OGRS 0-24%, OGRS 25-49%, OGRS 50-74%, OGRS 75-89% a OGRS 90-99%.

aildroseddu'n isel. Gan hynny, mae gwybodaeth am debygolrwydd unrhyw aildroseddu'n hanfodol wrth weithredu egwyddorion buddsoddi.

Tebygolrwydd o unrhyw ail euogfarn dreisgar

Yn ogystal â'r tebygolrwydd o ail euogfarn o unrhyw fath, mae'n ddefnyddiol, wrth dargedu gwasanaethau trais-benodol deall y tebygolrwydd o ail euogfarn dreisgar. Mesurir y tebygolrwydd o ail euogfarn dreisgar gan ddefnyddio Rhagfynegydd Trais OASys (OVP) sydd ar gael fel rhan o OASys, ac felly bydd y dull segmentu ar gyfer 2014-5 yn cynnwys rhoi ystyriaeth i sgorau OVP troseddwyr treisgar.

Tebygolrwydd o ail euogfarn rhyw

Yn ogystal â'r tebygolrwydd o ail euogfarn o unrhyw fath, mae'n ddefnyddiol, wrth dargedu darpariaeth ar gyfer troseddwyr rhyw, sydd, yn gyffredinol â chyfraddau isel o unrhyw ail euogfarn, deall y tebygolrwydd o ail euogfarn rhyw. Y prif declyn a ddefnyddir ar hyn o bryd i ragfynegi aildroseddu rhyw yw Risk Matrix 2000. Fodd bynnag, ni all y band RM2000 gael ei gynhyrchu o wybodaeth ganolog. Mae teclyn arall, sef Rhagfynegydd Rhyw OAsys (OSP), wedi ei ddatblygu a'i adolygu gan gydweithwyr. Mae'n rhagfynegydd ail euogfarn cyswllt rhyw mwy dibynadwy ac mae iddo'r fantais y gellir ei gynhyrchu o wybodaeth ganolog. Gan hynny bydd y ffigyrau segmentu y bydd NOMS yn eu rhoi ar gael i ddarparwyr gynorthwyo cynllunio gwasanaethau ar gyfer 2014-5 yn dibynnu ar sgorau OSP troseddwyr rhyw. Bydd ymarferwyr yn parhau i ddefnyddio RM2000 pan fyddant yn gwneud penderfyniadau unigol am driniaeth a rheoli achosion, ond bydd OSP yn rhoi gwybodaeth am gomisiynu cyfansymiau i gomisiynwyr a darparwyr gwybodaeth.

Tebygolrwydd o ail droseddu niweidiol difrifol

Diffiniad NOMS o niwed difrifol yw: '*digwyddiad sy'n peryglu bywyd a/neu'n drawmatig, y, gellid disgwyl i adferiad ohono, naill ai'n gorfforol neu'n seicolegol, fod yn anodd neu'n amhosibl.*' Ar hyn o bryd, gwneir asesiad o risg o niwed difrifol (ROSH) rhai troseddwyr trwy wneud defnydd o'r asesiad ROSH clinigol strwythuredig yn OASys. Pan gwblheir ef, mae ymarferwyr yn defnyddio'u doethineb i ddyrannu troseddwyr i gategori ROSH: uchel iawn, uchel, canolig, isel. Mae'r asesiad ROSH yn ystyried ystod o 'niweidiau' yn y dyfodol (gan gynnwys hunan niwed, i staff, i ddioddefwyr hysbys, i blant neu i aelodau o'r cyhoedd). Mae categori ROSH troseddwr yn rhoi gwybodaeth ar gyfer ei ddyrannu i Haen Rheoli Troseddwyr ac felly mae'n ganolog i'r modelau presennol ar gyfer darparu adnoddau. Ond nid yw'n bosibl defnyddio categori ROSH fel newidyn segmentu craidd gan nad yw'r asesiadau hyn ar gael ar gyfer pob troseddwr ac ni ellir cynhyrchu categori ROSH o wybodaeth ganolog.

Fel rhan o'r Rhaglen Gweddnewid Adsefydlu, mae teclyn actiwaraidd yn cael ei ddatblygu (a disgwylir iddo fod yn 'fyw' tuag Ebrill 2014), a fydd yn cynhyrchu sgôr ar gyfer pob troseddwr a fydd yn cynrychioli'r tebygolrwydd y bydd y troseddwr yn cael ei euogfarnu o un o restr benodol o 'aildroseddau niweidiol iawn' yn ystod y 12 neu 24 mis nesaf. Bydd y sgôr a gynhyrchir yn ddarn allweddol o wybodaeth i ymarferwyr ei hystyried ochr yn ochr â gwybodaeth arall gan gynnwys yr asesiad ROSH. Gall yr wybodaeth hon yn y dyfodol gael ei hymgorffori yn y proffil segmentu i helpu comisiynwyr a darparwyr gyda chomisiynu cyfansymiau mewn perthynas â throseddu niweidiol difrifol. Gall data wedi ei ddiwygio a ddarperir ar gyfer comisiynwyr a darparwyr yn ystod y cyfnod cyflenwi 2014-15 gynnwys yr wybodaeth hon. Bydd asesiadau

ROSH, lle maent ar gael, yn parhau i roi gwybodaeth ar gyfer ffurfio blaenoriaethau rheoli risg a rheoli achos ar gyfer troseddwyr unigol.

Trosedd bresennol troseddwyr

Er y cydnabyddir bod rhai troseddwyr yn amlddoniog ac nad yw eu trosedd indecs bob tro'n adlewyrchu eu hanes o droseddu, mae ein gwaith hyd yma (a'n hadolygiad o ymchwil rhyngwladol i arbenigedd troseddau) yn awgrymu at ddibenion segmentu, y gallai'r drosedd indecs gael ei defnyddio yn lle hoffter am fath arbennig o droseddu, a bod gan unigolion sydd â mathau o indecs troseddu gwahanol nodweddion ystyrlon o wahanol.

Hyd a math dedfryd troseddwyr

Mae dadansoddiad o'r grŵp o garcharorion ar ddedfrydau byr (y rhai sy'n bwrw cyfnod o lai na 12 mis yn y carchar) yn datgelu, fel enghraifft, nodweddion arbennig yn nhermau lefel risg a mathau o droseddu. Gallai carcharorion ar ddedfrydau amhenodol hefyd fod o niwed uwch neu fod â mwy o anghenion nag y mae eu tebygolrwydd o droseddu'n ei awgrymu. Maent hefyd yn fwy darostyngedig i brofion llym o ran priodoledd i'w rhyddhau, a gallai'r amodau hyn gyfiawnhau rheoli'r achos yn ychwanegol neu roi adnoddau ar gyfer adsefydlu.

Rhyw

Mae ffactorau gwahanol yn rhagfynegi aildroseddu ar gyfer merched a dynion a dylid adlewyrchu'r gwahaniaethau hyn wrth gomisiynu gwasanaethau.

Oedran

Mae gan droseddwyr ifanc risg uwch o aildroseddu na throseddwyr hŷn, a gallai eu dewisiadau troseddu fod yn fwy amlochrog ac yn cael eu heffeithio'n llai gan ddibyniaeth ar gyffuriau. Dylid adlewyrchu'r mathau hyn o wahaniaethau wrth gomisiynu gwasanaethau.

4. Y dystiolaeth y tu ôl i'r Bwriadau Comisiynu o 2014

Mae'r adran hon yn disgrifio'r sail tystiolaeth sy'n sylfaen i flaenoriaethau comisiynu NOMS fel yr amlinellir hwy yn y ddogfen Bwriadau Comisiynu NOMS o 2014.

***Bwriad Comisiynu 1:* Ehangu diogelwch y cyhoedd a sicrhau amgylchedd diogel, gweddus a diwylliant adsefydlu**

Mae angen i adsefydlu llwyddiannus gael amgylchedd lle mae unigolyn yn teimlo'n ddiogel, yn obeithiol, a lle bydd yn cael ei drin yn deg ac yn gyson. Nid yw'r pethau hyn *yn ddigon* ar gyfer adsefydlu ond maent *yn angenrheidiol*, ac maent hefyd yn bwysig ynddynt eu hunain. Pennir yr amgylchedd gan fwyaf gan agweddau a sgiliau staff rheng flaen, ac felly mae creu diwylliant effeithiol yn gofyn am arweinyddiaeth gref.

Amgylchedd a diwylliant mewn gwasanaethau cymunedol i droseddwyr

Un o'r sialensiau ar gyfer rheolwyr troseddwyr wedi eu lleoli yn y gymuned yw'r gofyniad i gyflawni swyddogaeth goruchwylio/gorfodi trwy'r un berthynas. Gall y tasgau hyn wrthdaro'n aml. Mae un astudiaeth o'r Unol Daleithiau yn dangos bod safbwynt cytbwys hanner ffordd rhwng gorfodaeth lem o'r gyfraith a chefnogaeth heb ei herio yn gysylltiedig â llai o ail-euogfarnu[4]. Canfu'r un astudiaeth fod cefnogaeth sefydliadol - megis bod ag arweinyddiaeth glir yn nhermau nodau a gwerthoedd adsefydlu - yn gysylltiedig â chanlyniadau gwell. Daw cefnogaeth ychwanegol i bwysigrwydd ffocws adsefydlu i ddedfrydau yn y gymuned o arolwg diweddar gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar effeithiolrwydd perthnasol gofynion gorchmynion cymunedol[5]. Canfu'r astudiaeth hon drwy ychwanegu gofyniad goruchwylio at ofyniad cosbol yn unig, y lleihawyd cyfradd aildroseddu wedi un flwyddyn a dwy flynedd. Bu llai o aildroseddu hefyd drwy ychwanegu gofyniad goruchwyliaeth plws gofyniad cosbol yn y rhaglen. Ond ni leihawyd aildroseddu wrth ychwanegu gofynion yn ymwneud â gweithgareddau.

Mewn theori, ymddengys yn fwyaf tebygol y bydd goruchwyliaeth yn cael effaith ar atgwympo ('recidivism') pan mae perthynas y goruchwyliwr yn bwysig yn bersonol i'r troseddwr, ac nid dim ond yn rhywbeth sy'n ei reoli ef neu hi. Awgrymodd canfyddiadau sy'n ymddangos o'r Astudiaeth Carfan Gymunedol Rheolwyr Troseddwyr (OMCCS[6]) bod y mwyafrif o bobl ar Orchmynion Cymunedol yn mynegi agweddau positif tuag at eu Gorchymyn, yn credu ei fod yn debygol o'u helpu i osgoi cyflawni troseddau pellach a'i fod wedi rhoi cyfle iddynt roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned[7]. Yr oedd yr agweddau mwyaf positif i Orchmynion Cymdeithasol yn gysylltiedig â'r gred gyffredin fod y ddedfryd yn deg, bod y Llys wedi deall eu sefyllfa bersonol, a bod y Rheolwr Troseddwyr wedi eu cynnwys wrth benderfynu ar amcanion y cynllun.

Mae'r prosiect SEEDS[8], sydd wedi ei gyflwyno i lawer o Ymddiriedolaethau Prawf, wedi datblygu hyfforddiant ar gyfer staff yn seiliedig ar oruchwyliaeth gydweithredol a chefnogaeth sefydliadol fel y disgrifiwyd uchod. Er nad oes unrhyw wybodaeth i oleuo canlyniadau ar gyfer effaith SEEDS eto, mae staff sydd wedi eu hyfforddi yn y dull hwn o weithio wedi ymateb yn gadarnhaol i'r hyfforddiant ac maent yn credu ei fod wedi gwella sut maent yn goruchwylio.

Gan hynny, at ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod **goruchwyliaeth gymunedol yn fwyaf effeithiol pan mae'r rhai sydd o dan oruchwyliaeth yn teimlo y deellir eu hamgylchiadau, eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn gydweithredol gan eu Rheolwyr Troseddau, a phan mae adsefydlu a goruchwyliaeth yn ffurfio rhan o'u Gorchmynion**.

Amgylchedd carcharol a diwylliant adsefydlu effeithiol

Er bod agweddau staff tuag at garcharorion ac adsefydlu yn reddfol bwysig, mae ymchwil gan Ganolfan Ymchwil Carchardai Caergrawnt[9] yn awgrymu nad yw agweddau cadarnhaol staff *yn ddigonol* i garchar ddarparu amgylchedd diogel sy'n cefnogi adsefydlu. Uwchben popeth, mae ar garcharorion angen i reolau gael eu gorfodi'n deg ond gydag awdurdod, yn hytrach nag yn anghyson neu gyda gormod o hyblygrwydd, fel bod eu hamgylcheddau yn teimlo eu bod yn cael eu rheoli. Maent yn mynegi pryder am gyfundrefnau maent yn teimlo sydd â threfn a ffiniau annigonol.

Mae amryw o raglenni ymchwil gwahanol wedi sefydlu'n annibynnol pa mor bwysig y mae carcharorion yn cyfrif **teimlo'n ddiogel**, sy'n rhoi'r rhyddid sydd ei angen arnynt i **ffocysu ar ddefnyddio'u carchariad ar gyfer adsefydlu a newid**[10]. Mae'n ymddangos fod carcharorion a staff yn gwahaniaethu yn eu dirnadaeth o'r raddfa y mae carchar yn ddiogel, felly mae'n bwysig deall hyn o safbwynt y carcharorion. Mae diogelwch wedi ei ddisgrifio fel teimlo y gallwch ymddiried mewn pobl eraill (cyd-garcharorion a staff), canfod heddwch meddwl, teimlo'n rhydd o'r ofn y gellir ymosod arnoch, credu'ch bod mewn dwylo diogel, ac o ganlyniad, gallu ymlacio a meddwl am faterion eraill[11].

Mae'r Ganolfan Ymchwil Carchardai wedi rhestru nodweddion adeiladol yn y berthynas rhwng staff carchardai a charcharorion yn ofalus iawn[12]. Mae dwy agwedd bwysig i berthynas adeiladol staff-carcharor: cwrteisi ac effeithiolrwydd. Diffinnir perthnasau adeiladol yn gyntaf gan **gwrteisi rhyngbersonol, diffyg ymddygiad ymosodol** ac **osgoi ymddygiad sy'n sarhaus ac yn diraddio**, ac yn ail maent yn cynnwys '**bod pethau'n cael eu gwneud**' - parodrwydd i gefnogi a phrosesu ceisiadau carcharorion yn gyflym.

Yn ychwanegol, mae carchardai sy'n anelu at leddfu agweddau carcharu a allai arwain at gynnydd mewn aildroseddu (megis amharu ar berthnasau, effaith ar hunaniaeth, labelu, a diwylliannau gwrthgymdeithasol lle, er enghraifft mae carcharorion yn treulio amser yn brolio am eu troseddau wrth ei gilydd neu yn dysgu sgiliau troseddol i'w gilydd) yn fwy tebygol o gael effaith ar aildroseddu. Mae'r pump ffactor canlynol i'w gweld yn arbennig o bwysig mewn lleddfu effeithiadau negyddol carcharu a lleihau aildroseddu:

1) Amgylchedd diogel, cyfreithlon a gweddus lle mae staff yn hyderus ond nid yn rhy llawdrwm eu hawdurdod a lle mae pawb yn cytuno mai pwrpas y carchar yw helpu pobl i newid eu bywydau yn ogystal â diogelu'r cyhoedd.

2) Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a throseddwyr yn ystyrlon, yn gyson ac yn adeiladol: yn mynd i'r afael ag agweddau; dysgu datrys problemau a chymryd persbectif; arwain trwy esiampl; gwobrwyo dilyniant; rhoi gobaith; sicrhau bod pethau'n cael eu gwneud; gwneud yn siŵr bod pob sgwrs yn cyfrif (gweler isod am fwy o wybodaeth).

3) Ymyriadau effeithiol sy'n ymdrin â meddylfryd, agweddau ac ymddygiad troseddol (gweler adran 3 am fwy o wybodaeth).

4) Gweithgaredd i ymdrin â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol (gweler Tabl 1 ar dudalennau 14-16)

5) Amrywiaeth o wasanaethau adleoli a hyfforddiant sy'n gwella rhagolygon o gael tai, cyflogaeth, incwm, perthnasau teuluol wedi'u cryfhau, a pherthnasau cymdeithasol gyda phobl nad ydynt yn ymwneud â throseddu (gweler Tabl 1 ar dudalennau 14-16)

Ymddygiadau gan staff sy'n hybu ymataliad

Mae'r dystiolaeth a ddisgrifir yma yn tynnu'n helaeth ar ymchwil gyda swyddogion prawf. Rydym wedi cymryd yn ganiataol bod yr un egwyddorion yn berthnasol mewn awyrgylch carcharol ag i ddarparwyr goruchwyliaeth eraill yn y gymuned. Mae astudiaethau o'r ffordd mae staff goruchwylio yn ymgysylltu â throseddwyr yn dangos y gall rhai sgiliau wella newid mewn ymddygiad. Mae dau ddull o werthuswyd mewn gwahanol wledydd a chyrff (modelu pro-gymdeithasol[13, 14], STICS[15, 16]) yn dod i'r un casgliadau: **pan mae staff rheng flaen yn ymgysylltu â throseddwyr drwy ddefnyddio set arbennig o sgiliau, mae effaith bositif ar aildroseddu**.

Yn ychwanegol, mae ymchwil sylweddol bellach yn awgrymu bod unigolion sy'n ymatal rhag troseddu fel arfer wedi eu hysgogi'n fawr i newid eu bywydau ac yn teimlo'n hyderus y gallant newid pethau er gwell. Y troseddwyr sy'n dweud yn glir eu bod eisiau atal troseddu yw'r rhai mwyaf tebygol o ymatal[17]. Mae effaith y ffactorau ysgogol hyn wedi eu canfod mewn astudiaethau hir dymor hyd at ddeng mlynedd ar ôl rhyddhau o garchar[18]. Mae llawer o ymatalwyr yn siarad am yr effaith gref o gael rhywun sy'n credu ynddynt[19] ac am ryngweithio sy'n cyfleu cred y gallant ac y byddant yn newid, eu bod yn bobl dda, a bod ganddynt rywbeth i'w gynnig i'r gymdeithas neu i eraill[20]. Mae llawer o waith â throseddwyr yn ffocysu ar adnabod a thargedu ffactorau risg – ffactorau sy'n cynyddu'r risg o aildroseddu. Yn aml, cymerir llai o sylw o adnabod a datblygu cryfderau person. Mae troseddwyr yn sylwi pan mae pwyslais ar risgiau a diffygion yn hytrach na chryfderau, a gallant fod yn llai tueddol o ymgysylltu pan fydd hyn yn digwydd[21]. Mae'r dull orau i'w gymryd yn ffocysu yn gyfartal ar dargedu ffactorau risg, **a** chydnabod/datblygu cryfderau. Gall staff sydd â disgwyliadau isel o droseddwyr greu proffwydoliaethau hunangyflawnol sy'n hybu aildroseddu. Mae staff sydd â disgwyliadau uchel yn fwy tebygol o gynyddu ymdrechion penderfynol i newid[22].

Yr ymddygiadau staff sy'n ymddangos fel pe baent yn helpu troseddwyr i ymatal yn ôl yr ymchwil a grynhowyd uchod yw:

- Y gred bod ymgysylltu â throseddwyr wrth iddynt newid yn un o'u hamcanion mwyaf pwysig
- Cyfleu gobaith ac optimistiaeth bod newid yn bosibl; disgwyl llwyddiant
- Arddangos a dysgu sgiliau meddwl ac ymddygiad fel gosod nodau, sgiliau cyfathrebu, datrys gwrthdaro, rheoli emosiynau a datrys problemau
- Adeiladu perthnasau sy'n arddangos gwir ofal am yr unigolyn, ei ymataliad a'i ddyfodol

- Gwrando gweithredol
- Helpu pobl i osod nodau ar gyfer newid eu bywydau a'u hanelu i gyfeiriad o ymatal rhag troseddu

***Bwriad Comisiynu 2:* Cryfhau'r gwaith o integreiddio'r dull o gyflenwi gwasanaethau rhwng darparwyr a ariannwyd yn uniongyrchol, darparwyr a gydgomisiynwyd a phartneriaid ehangach**

Er mwyn lleihau aildroseddu felly, mae'n hanfodol fod pob troseddwr yn cael profiad o ddull integredig yn ystod ei ddedfryd, lle mae perthnasau, ymyriadau a gwasanaethau unigol yn cael eu cyfuno'n holistig i ateb ei risgiau ac anghenion unigol. Mae angen i ddull holistig gael dealltwriaeth o'r holl daith droseddol, o'r llys, trwy'r carchar mewn rhai achosion, i oruchwyliaeth ac yna fywyd heb oruchwyliaeth yn y gymuned, a sut gall troseddwr gael ei gefnogi trwy'r daith honno. Os yw troseddwr yn derbyn cefnogaeth gyson ac integredig, yn arbennig ar adegau peryglus ar ei daith, yna mae ymatal rhag troseddu yn fwy tebygol.

Nododd gwerthusiadau o gynlluniau peilot Rheoli Troseddwyr Integredig[23] bod sicrhau cefnogaeth rhanddeiliaid allweddol yn gonglfaen i sefydlu a chyflenwi gwasanaethau integredig yn effeithiol. Roedd nodweddion pwysig yn gynnwys cefnogaeth gydlynus i droseddwyr a gydlynir trwy borth y carchar, hyfforddiant rhwng a thu mewn i asiantaethau er mwyn gwreiddio dysgu, newidiadau diwylliannol a gweithredol, strwythurau llywodraethu a chyflenwi cryfion, diffiniadau clir o rolau a chyfrifoldebau gwahanol asiantaethau a staff asiantaethau a chyfathrebu effeithiol rhwng holl ddarparwyr gwasanaethau. Roedd rhwystrau a oedd yn atal datblygu a chyflenwi yn cynnwys diffyg dealltwriaeth gyffredin o wahanol wasanaethau, problemau ynglŷn ag arweinyddiaeth, agendas ar draws gwahanol asiantaethau'n cystadlu, dryswch ynglŷn â llywodraethu, problemau cydlynu rheoli data, negeseuon cymysg ynglŷn â bwriadau a rhannu gwybodaeth yn rhy hwyr.

***Bwriad Comisiynu 3:* Cyflenwi gwasanaeth effeithiol, o ansawdd**

Mae gwasanaethau'n fwyaf tebygol o leihau aildroseddu os dylunnir hwy i dargedu'r ffactorau risg sy'n arwain at aildroseddu, os ydynt yn cymryd sylw o ansawdd cyflenwi, ac os yw eu dulliau'n weithredol a chyfranogol ac yn ffocysu ar ddysgu sgiliau newydd.

Beth sy'n sbarduno aildroseddu?

Mae gwahanol ddamcaniaethau, ac weithiau rhai sy'n gwrthdaro â'i gilydd ynghylch pam mae pobl yn troseddu a sut y gall aildroseddu gael ei atal, ac mae rhai damcaniaethau wedi eu profi'n fwy trwyadl nag eraill. Dim ond dros amser a thrwy eu defnyddio a'u profi ar draws cyd-destunau y gall damcaniaethau a'r ymyrraeth a seilir arnynt brofi eu gwerth ai peidio.

Mae ymchwil droseddegol wedi darganfod llawer o ffactorau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig ag aildroseddu - ffactorau sy'n aml yn cael eu gwaethygu gan feddu ar record droseddol. Mae'r mwyafrif o'r ffactorau hyn y tu hwnt i reolaeth NOMS ac felly mae gwasanaethau'n tueddu i ganolbwyntio ar ffactorau sy'n rhai personol i'r troseddwr y gallant ddylanwadu arnynt. Weithiau mae hyn yn golygu bod ffactorau cefndirol ehangach, ac yn enwedig y problemau a achosir gan labelu a stigma ac allgau

cymdeithasol, yn cael eu hanwybyddu, neu yn cael eu gweld fel cyfrifoldeb y troseddwyr i fynd i'r afael â hwy. Mae'n bwysig adnabod y **rhwystrau i ailintegreiddio** mae'r mwyafrif o droseddwyr yn eu hwynebu, a gweithio i helpu i oresgyn y rhain trwy help ymarferol a chymorth.

Mae Tabl 1 yn disgrifio (nid mewn unrhyw drefn arbennig) naw o ffactorau sydd â thystiolaeth dda i gefnogi eu cysylltiad ag aildroseddu ac ymatal[24]. Mae'r tabl yn awgrymu'r canlyniadau canolradd dymunol sy'n gysylltiedig â phob ffactor aildroseddu, ac yn crynhoi'r sylfaen dystiolaeth bresennol mewn perthynas â pha wasanaethau sy'n mynd i'r afael â phob un yn effeithiol. Mewn rhai achosion mae'r sail dystiolaeth yn gryf, mewn eraill mae'n wan, yn amhendant neu bron yn hollol ddiffygiol. Gan hynny, mae'r Tabl yn datgelu meysydd lle mae angen tystiolaeth ychwanegol a lle mae'r dystiolaeth yn addawol ond heb fod yn bendant eto. Diweddarir Tabl 1 wrth i'r dystiolaeth ddatblygu.

Nodweddion ymyriadau effeithiol

Mae tystiolaeth dda y gall tri math o wasanaeth leihau aildroseddu:

- Rhaglenni ymddygiad troseddol sy'n strwythuredig, gan fwyaf yn wybyddol-ymddygiadol, sy'n mynd i'r afael ag anghenion criminogenig (a gyflenwir gan amlaf mewn grwpiau)
- Cymunedau therapiwtig, (yn arbennig ar gyfer camddefnyddwyr sylweddau ond hefyd ar gyfer troseddwyr ag anhwylder personoliaeth neu droseddwyr risg uchel)
- Goruchwyliaeth yn y gymuned, yn arbennig pan strwythurir sesiynau a phan fônt yn ffocysu ar anghenion criminogenig, megis y rhai yn Nhabl 1

Mae'r dystiolaeth wedi dangos bod nodweddion canlynol ymyrraeth neu wasanaeth yn gysylltiedig â lleihau aildroseddu[25]. Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i raglenni, cymunedau therapiwtig, a goruchwyliaeth yn y gymuned:

- Prosesau asesu a dethol amlwg, fel bod ymyriadau'n ffocysu ar droseddwyr risg canolig neu risg uchel
- Rhai sy'n ffocysu ar ffactorau sy'n rhagfynegi aildroseddu (h.y. y rhai a nodwyd yn Nhabl 1)
- Defnyddio staff sydd wedi eu hyfforddi'n dda a goruchwylio'u cyflenwi er mwyn sicrhau bod y gweithredu o ansawdd uchel[26];
- Bod â chynllun gwerthuso ac yn cynnwys ymchwilydd
- Bod â dull gweithredol, cyfranogol o weithio, yn hytrach na bod gan fwyaf yn addysgiadol neu'n llac iawn, yn anstrwythuredig a phrofiadol
- Yn dysgu sgiliau i'r rhai sy'n cymryd rhan, yn arbennig sgiliau cymdeithasol megis datrys problemau rhyngbersonol, datrys gwrthdaro, sgiliau cyfathrebu, a sgiliau rheoli emosiynol. Mae ymyriadau sy'n dysgu sgiliau lluosog yn fwy effeithiol nag ymyriadau sy'n dysgu un sgil yn unig.
- Mae ymyriadau effeithiol yn dysgu sgiliau trwy ddulliau gweithredol megis hyfforddiant a chwarae rôl, ac yn annog ymarfer sgiliau newydd yn gyson mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn

Ansawdd

Mae'r dystiolaeth yn glir bod ymyraethau a gwasanaethau'n fwy effeithiol wrth leihau aildroseddu os rhoddir sylw i ansawdd y cyflwyno[27 28 29]. Mae ansawdd yn cynnwys sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gyflenwi fel y bwriadwyd ef a heb symud i ffwrdd o'i dargedau neu ddulliau. Mae hefyd yn golygu defnyddio staff sydd wedi eu hyfforddi'n iawn ac a gefnogir, a rhoi sylw i ansawdd y berthynas rhwng staff a chleientiaid, a rhwng rheolwyr a'r rhai sy'n cyflenwi'r gwasanaeth. Er y gall ffocws ar ansawdd wneud ymyriad yn ddrutach, mae cymryd sylw o ansawdd yn gwella effeithiolrwydd ac felly, at ei gilydd, gwerth am arian.

Tabl 1: Ffactorau sy'n gysylltiedig ag aildroseddu/ymatal a ffyrdd o fynd i'r afael â hwy

Ffactorau Aildroseddu	Dangosyddion (enghreifftiau o ymddygiadau sy'n dynodi bod y ffactor aildroseddu hwn yn bresennol)	Y Canlyniadau Canolraddol a Ddeisyfir	Dulliau seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r ffactor aildroseddu hwn	Dulliau addawol (angen rhagor o dystiolaeth)
Camddefnyddio cyffuriau (cysylltiad arbennig o gryf â throseddau o ddwyn)	Defnyddio cyffuriau Dosbarth A, chwistrellu cyffuriau, caethiwed/dibyniaeth cyffuriau, diffyg parodrwydd i roi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau, defnydd o gyffuriau a chaffael cyffuriau'n weithgaredd/galwedigaeth sylweddol	Lleihau neu atal defnydd o gyffuriau	Rhaglenni ymddygiadol gwybyddol wedi eu cynllunio ar gyfer troseddwyr dibynnol ar gyffuriau Dadwenwyno, therapi cyffuriau amgen (i droseddwyr caffaelgar dibynnol ar gyffuriau), cefnogaeth seico-gymdeithasol i gynnal ymataliad, rhaglenni 12 cam, cymunedau therapiwtig strwythuredig yn canolbwyntio ar gamddefnyddio sylweddau	Ddim yn berthnasol – Mae tystiolaeth dda ar gael mewn perthynas â'r ffactor hwn
Camddefnyddio alcohol (cysylltiad arbennig o gryf â throseddu treisgar)	Meddwi, camddefnydd alcohol hirdymor, treisgar pan fo'n feddw	Sobrwydd, yfed llai o alcohol, meddwi llai, llai o darfu ar y meddwl o ganlyniad i gamddefnyddio alcohol	Nid oes dull eto wedi ei arddangos i fod â sail dystiolaeth gref am leihau troseddu sy'n gysylltiedig ag alcohol	Rhaglenni sy'n ymdrin â'r rhyngweithio rhwng alcohol a thrais
Byrbwylltra / hunan reolaeth isel	Diffyg sgiliau datrys problemau, diffyg ymwybyddiaeth o ganlyniadau gweithredu, gwael am gymryd persbectif, anhawster wrth reoli emosiynau neu fympwyon	Sgiliau wrth ddatrys problemau mewn ffordd gadarnhaol yn gymdeithasol a chymryd persbectif. Sgiliau rheoli emosiynau	Rhaglenni ymddygiadol gwybyddol strwythuredig megis hyfforddiant sgiliau ymddygiadol a rhaglenni rheoli emosiynau	Ddim yn berthnasol – Mae tystiolaeth dda ar gael mewn perthynas â'r ffactor hwn
Agweddau sy'n cefnogi troseddu	Rhesymoli troseddu, uniaethu gyda diwylliant ac arferion troseddol, gwrthod agweddau confensiynol at droseddu a'r system gyfreithiol. Gweld troseddu a ffordd o fyw droseddol fel hunaniaeth gadarnhaol neu fel rheidrwydd er mwyn goroesi. Credu mai ymddygiad troseddol yw'r unig beth yr ydych yn gallu ei wneud yn dda	Datblygu neu wella hunaniaeth anhroseddol Teimlo'n obeithiol gyda symbyliad i roi'r gorau i droseddu	Cynadledda rhwng dioddefwyr a throseddwyr (Cyfiawnder Adferol) (i droseddwyr treisgar a chaffaelgar gyda dioddefwr y gellir ei adnabod) Rhaglenni ymddygiad gwybyddol sy'n targedu agweddau	Modelu cymdeithasol cadarnhaol, rhyngweithio cadarnhaol â staff Rheolwyr achosion yn herio agweddau gwrthgymdeithasol

Ffactorau Aildroseddu	Dangosyddion (enghreifftiau o ymddygiadau sy'n dynodi bod y ffactor aildroseddu hwn yn bresennol)	Y Canlyniadau Canolraddol a Ddeisyfir	Dulliau seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r ffactor aildroseddu hwn	Dulliau addawol (angen rhagor o dystiolaeth)
Rhwydwaith cymdeithasol sydd hefyd yn ymwneud â throseddu	Ffrindiau sy'n droseddwyr; wedi eu hynysu oddi wrth bobl gymdeithasol gadarnhaol; cael eu dylanwadu'n hawdd gan gymdeithion troseddol	Cael lle o fewn cymuned gymdeithasol anhroseddol; cryfhau 'cyfalaf cymdeithasol' – megis cael cefnogaeth aelodau teulu estynedig, cymdeithasau cydfuddiannol, clybiau, grwpiau diwylliannol, crefyddol neu chwaraeon	Nid yw'r dystiolaeth yn ddigon cadarn eto i allu argymell unrhyw ddulliau penodol	Mentora, Cylchoedd o Gefnogaeth ac Atebolrwydd (i droseddwyr rhyw)
Perthnasoedd teuluol / priodasol	Perthnasoedd teuluol gwael; dim perthynas gyfredol; dim profiad blaenorol o berthnasoedd agos; gormesol neu ymosodol mewn perthnasoedd agos	Llai o wrthdaro mewn perthnasoedd agos, perthnasoedd cadarnhaol, mwy o gynhesrwydd a gofal tuag at eraill Clymau teuluol cryf a chefnogol yn gwella perthynas â theulu a chymar, ymddygiadau rhianta hyderus a chyfrifol	Dulliau therapiwtig ar gyfer oedolion ifanc sy'n droseddwyr a'r rheini'n cynnwys y teulu (megis therapi amlsystemig	Ymyriadau hyfforddiant mewn perthynas Annog a galluogi ymweliadau gan y teulu â charcharorion
Diffyg gwaith/ cyflogaeth ansefydlog	Methu â chael hyd i waith, yn ddi-waith, perfformiad gwael neu foddhad isel mewn gwaith; diffyg sgiliau cysylltiedig â gwaith, agwedd wael at gyflogaeth, diffyg cymwysterau	Gwella cyflogadwyedd drwy sgiliau a chymhelliant i weithio a'r hyder i gymdeithasu'n adeiladol gydag eraill mewn lleoliad gwaith Cyflogaeth sefydlog yn enwedig os yw'n cynnig teimlad o lwyddiant, meistrolaeth neu foddhad	Llythrennedd, rhifedd a sgiliau bywyd (lle bo angen hynny) Rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gyflogaeth lle gall troseddwyr sicrhau swyddi go iawn	Ennill cymwysterau cysylltiedig â gwaith, ennill sgiliau cyflogadwyedd Mentora cysylltiedig â gwaith
Diffyg gweithgareddau hamdden cadarnhaol	Diffyg cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden cymdeithasol cadarnhaol na chael boddhad ynddynt. Gweithgareddau rheolaidd sy'n annog troseddu a/neu ymddygiad di-hid a chymryd risgiau	Cymryd rhan gyda brwdfrydedd mewn gweithgareddau hamdden cymdeithasol cadarnhaol a pharhau i ddilyn ffordd o fyw gadarnhaol yn gymdeithasol	Nid yw'r dystiolaeth yn ddigon cadarn eto i allu argymell dulliau penodol	Dim wedi eu hadnabod

Ffactorau Aildroseddu	Dangosyddion (enghreifftiau o ymddygiadau sy'n dynodi bod y ffactor aildroseddu hwn yn bresennol)	Y Canlyniadau Canolraddol a Ddeisyfir	Dulliau seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â'r ffactor aildroseddu hwn	Dulliau addawol (angen rhagor o dystiolaeth)
Digartrefedd, neu'n byw mewn cymdogaeth griminogenig[30]	Dim cartref sefydlog na pharhaol	Cael hyd i gartref addas a'i gadw	Nid yw'r dystiolaeth yn ddigon cadarn eto i allu argymell dulliau penodol	Ymyriadau sy'n anelu at gyflawni atebion lletya hirdymor, yn hytrach nag atebion dros dro neu ateb i argyfwng Gwasanaethau sydd hefyd yn mynd i'r afael ag achosion digartrefedd megis iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a diffyg cyflogaeth Help i reoli achosion yn ddwys i sicrhau llety neu gysylltu troseddwyr â gwasanaethau tai sydd ar gael

Goruchwylio troseddwyr ar sail tystiolaeth yn y gymuned

Ychydig o ymchwil systematig sydd wedi bod ar oruchwyliaeth prawf[31] yng Nghymru a Lloegr, er ein bod yn gwybod mai ar gyfer rhai troseddwyr (y rhai â dim neu un euogfarn flaenorol), mae gan oruchwyliaeth ar ôl bod yn y ddalfa fwy o effaith ar aildroseddu na chael eu rhyddhau heb oruchwyliaeth[32]. Fodd bynnag, awgryma ymchwil rhyngwladol fod goruchwyliaeth yn fwyaf effeithiol os yw'n dilyn egwyddorion 'Risg, Angen ac Ymatebolrwydd'. Hynny yw, nid yw troseddwyr gyda risg isel o aildroseddu'n elwa ar oruchwyliaeth ddwys a gellir eu rheoli gyda'r isafswm o oruchwyliaeth[33]. Y math o oruchwyliaeth sy'n debygol o fod o fwyaf o fudd i droseddwyr risg canolig a risg uchel yw un sy'n (a) strwythuredig, (b) cael ei darparu trwy berthynas symbylol a chefnogol, yn hytrach nag un sy'n troi o gwmpas rheolaeth, rhwng y troseddwr a'r goruchwyliwr, (c) pwysleisio (ail)integreiddio cymdeithasol, (ch) cynnwys cyfeiriadau at asiantaethau cymunedol eraill fel bod cefnogaeth gymdeithasol yn parhau y tu hwnt i ddiwedd y ddedfryd, a (d) ymdrin ag agweddau a meddylfryd sy'n gyrru troseddu'n ogystal ag anghenion cymdeithasol ac amgylchiadol. Mae'r rhaglen Ddinasyddiaeth[34] yn enghraifft o oruchwyliaeth strwythuredig effeithiol sy'n dilyn yr egwyddorion hyn; gallant hefyd gael eu cymhwyso trwy gyfarfodydd goruchwyliaeth un-i-un rheolaidd. Daeth adolygiad Americanaidd o oruchwyliaeth ddwys i'r casgliad nad yw goruchwyliaeth ddwys wedi ei ffocysu ar gadw golwg yn cyflawni unrhyw ostyngiad mewn aildroseddu; bod goruchwyliaeth ddwys wedi ei chyfuno â thriniaeth yn cyflawni o gwmpas 10 y cant o ostyngiad mewn aildroseddu; a goruchwyliaeth wedi ei ffocysu ar y dull 'Risg, Angen ac Ymatebolrwydd' yn cyflawni 16 y cant o ostyngiad mewn aildroseddu[35].

Beth sy'n annhebygol o leihau aildroseddu?

Cydnabyddir mai'r gostyngiad mewn ailsefydlu troseddwyr yw dim ond un o ddibenion dedfrydu troseddwyr. Efallai na fydd strategaethau sydd er enghraifft, yn anelu yn y lle cyntaf at gosbi neu reoli troseddwyr ar eu pennau eu hunain, yn lleihau aildroseddu er y gallai fod rhesymau eraill cyfiawn am eu gorfodi fel rhan o ddedfryd llys troseddol. Ond mae gwasanaethau ac ymyriadau'n annhebygol o gael unrhyw effaith ar ganlyniadau aildroseddu lle nad oes cysylltiad rhyngddynt â damcaniaethau sefydledig o droseddu ac ymatal.

Ymyriadau yn seiliedig ar ataliaeth

Mae'r egwyddor o ataliaeth yn honni y dylai cosbi ymddygiad troseddol atal troseddwyr rhag troseddu ac aildroseddu. Ond mae tystiolaeth bod rhaglenni neu ymyriadau sy'n seiliedig ar ataliaeth yn gweithio yn brin iawn, a thystiolaeth nad yw'n gweithio yn niferus[36]. Mae ymyriadau sy'n seiliedig ar ataliaeth yn unig nad ydynt yn lleihau aildroseddu yn cynnwys ymyriadau sy'n anelu at atal pobl ifanc rhag troseddu trwy eu cyflwyno â gwybodaeth am ganlyniadau hir dymor[37, 38].

Ymyriadau yn seiliedig ar reoli

Mae'r egwyddor o reoli yn honni y bydd rheoli troseddwyr mor agos fel bod eu cyfleoedd ymddygiadol yn gyfyngedig yn lleihau aildroseddu. Mae ymyriadau yn seiliedig ar reoli sydd wedi eu canfod i beidio â chael effaith ar aildroseddu yn cynnwys goruchwyliaeth ddwys (heb unrhyw elfen o driniaeth), a phrofion chyffuriau (heb gyfleoedd i ymdrin â dibyniaeth ar gyffuriau)[39]. Ond os yw troseddwyr yn tybio bod strategaethau rheoli yn eu cynorthwyo yn hytrach na'u rheoli, gallant fod yn fwy effeithiol. O ganlyniad mae gan gynlluniau goruchwyliaeth ddwys sy'n cynnwys elfennau sy'n ymwneud â thriniaeth, megis triniaeth am gamddefnyddio

sylweddau, hyfforddiant galwedigaethol neu gefnogaeth gydag ailintegreiddio, effeithiau gwell na'r rhai nad oes ganddynt mo'r elfennau hyn[40].

Datblygu disgyblaeth neu hunan hyder heb addysgu sgiliau

Credir yn gyffredin bod datblygu disgyblaeth a hunan hyder mewn troseddwyr yn lleihau eu haildroseddu, ond mae'r dystiolaeth yn gwrthddweud hyn. Er enghraifft, canfuwyd dro ar ôl tro bod cyfundrefnau arddull filwrol ("**boot camps**") sydd yn anelu at ddysgu disgyblaeth yn unig i droseddwyr yn cael dim effaith ar aildroseddu[41,42, 43]. Ymddengys bod rhai "boot camps" yn cael rhai effeithiau tymor byr o ran newid agweddau gwrthgymdeithasol[44], ond nid yw hyn i'w weld yn trosi i ostyngiadau mewn aildroseddu. Pan fydd "boot camps" yn cynnwys elfennau o driniaeth, mae gan gyfranogwyr syniadau mwy ffafriol am y rhaglen[45]. Ymddengys fod y cyfundrefnau triniaeth hyn yn lleihau aildroseddu[46].

Cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth heb addysgu sgiliau

Mae rhai ymyriadau'n anelu at ehangu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth mewn troseddwyr ond heb ddysgu sgiliau ar gyfer hunan reoli na newid mewn ymddygiad. Ymddengys bod rhaglenni **ymwybyddiaeth alcohol/cyffuriau** sy'n rhai addysgiadol yn unig yn aneffeithiol o ran hybu newid, yn arbennig i'r rhai sy'n gaeth i opiadau[47]. Mae **ymwybyddiaeth o anghenion dioddefwyr** (nid yw hyn yn golygu cynadleddau wyneb yn wyneb rhwng troseddwr–dioddefwr), pan y'u cynhwysir mewn rhaglenni eraill ar gyfer troseddwyr, yn gysylltiedig â chanlyniadau gwaelach[48] (er nad oes gwerthusiadau cryf o raglenni *empathi* troseddwyr fel dull annibynnol).

Gor-driniaeth i droseddwyr risg isel

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod cyflenwi gwasanaethau dwys i droseddwyr risg isel yn fwy tebygol o gynyddu aildroseddu na'i leihau[49]. Mae'r canfyddiad hwn hefyd yn berthnasol i Fwriad Comisiynu 4 a thargedu ymyriadau.

Bwriad Comisiynu 4: Sicrhau bod cyflenwi'n cyfateb i'r boblogaeth, y diben a chanlyniadau NOMS

Mae dull segmentu NOMS wedi dechrau canfod gwahaniaethau yn y modd mae is-grwpiau o droseddwyr yn ymateb i ymyriadau a gwasanaethau a bod ganddynt batrymau gwahanol o angen. Mae hyn yn atgyfnerthu nad yw pob person sy'n troseddu yr un fath – mae rhai'n fwy tebygol o aildroseddu nag eraill, ac mae gan bobl sy'n cyflawni mathau gwahanol o drosedd anghenion cysylltiedig â'r troseddu.

Er enghraifft:

- Mae ymyriadau yn cael yr effaith orau ar gyfraddau aildroseddu pan maent yn cael eu targedu ar droseddwyr risg canolig neu uwch. Nid oes angen ymyriadau dwys wedi eu ffocysu ar y drosedd ar unigolion risg isel; gall y rhain gynyddu yn hytrach na lleihau'r cyfraddau aildroseddu [50] ar gyfer y grŵp hwn.

- Mae dwy astudiaeth wedi canfod bod rhaglenni sgiliau gwybyddol yn lleihau aildroseddu mewn troseddwyr rhyw a threisgar ymysg oedolion gwryw, ond nid ar gyfer y rhai a euogfarnwyd o fyrgleriaeth neu ladrad[51 52]. Mae'r patrwm hwn yn wir ar gyfer troseddwyr ifanc gwrywaidd a merched. (Mae byrglerwyr a lladron sy'n ferched yn arddangos llai o aildroseddu ar ôl ymyriad sgiliau gwybyddol is. (Mae byrgleriaid a lladron sy'n ferched yn dangos llai o aildroseddu ar ôl ymyriad sgiliau gwybyddol, ond nid yw'r effaith mor sylweddol ag i droseddwyr rhyw a threisgar.) Mae hyn yn awgrymu efallai ein bod angen chwilio am wahanol ddulliau o leihau aildroseddu ar gyfer pobl sy'n cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol o ddwyn.

Mae'r crynodeb canlynol yn dynodi pa ddulliau sy'n fwyaf tebygol o fod yn effeithiol gyda gwahanol segmentau troseddwyr.

Troseddwyr rhyw

O'u cymharu â grwpiau eraill o droseddwyr, mae gan droseddwyr rhyw gyfraddau isel o aildroseddu dros 2 i 5 mlynedd. Mae hyn yn golygu y gallai fod yn anodd i hyd yn oed astudiaethau cryf ddangos gostyngiadau ystadegol arwyddocaol mewn aildroseddu. Mae rhaglenni ymddygiad troseddol wedi eu ffocysu ar y drosedd ar gyfer troseddu rhyw yn dueddol o ddadansoddi troseddau, adnabod ffactorau risg unigolion ac ystyried yr effaith ar ddioddefwyr, yn ogystal â rhoi'r cyfle i ddatblygu sgiliau ar gyfer ymatal rhag troseddu. Mae'r dystiolaeth gryfaf ar gyfer cefnogi troseddwyr i ddatblygu sgiliau gwybyddol ac ymddygiadol er mwyn eu helpu i ymatal.

Mae meta-ddadansoddiad yn dangos bod troseddwyr rhyw sy'n derbyn triniaeth o'r natur hwn, yn y carchar ac yn y gymuned, at ei gilydd â chyfradd aildroseddu rywfaint yn is na'r rhai nad ydynt yn derbyn triniaeth[53].

Dangoswyd bod triniaeth ffarmacolegol (er enghraifft, meddyginiaeth sy'n lleihau ynni rhyw) yn lleihau aildroseddu rhyw[54]. Mae Cylchoedd o Gefnogaeth ac Atebolrwydd (COSAau), ffurf o fentora a oruchwylir yn ofalus, hefyd yn ymddangos yn addawol o ran eu gallu i helpu ymataliad mewn troseddwyr rhyw risg uchel[55]. Yn gyffredinol, ni chanfuwyd bod dulliau eraill (seicotherapi, cwnsela, a thriniaeth anymddygiadol) yn lleihau aildroseddu mewn troseddwyr rhyw[56]. Mae adolygiadau hefyd wedi cadarnhau bod rhaglenni troseddwyr sy'n dilyn yr egwyddorion 'Risg, Angen ac Ymatebolrwydd' yn arwain at y gostyngiadau mwyaf mewn aildroseddu[57]. Hynny yw, mae gan droseddwyr rhyw risg canolig ac uchel gyfraddau llai o aildroseddu ar ôl triniaeth. Ni welir mo hyn ar gyfer troseddau rhyw o risg isel (o aildroseddu) a gallai triniaeth ddwys fod, mewn gwirionedd, yn wrthgynhyrchiol[58].

Troseddwyr treisgar

Ceir tystiolaeth dda y gellir lleihau trais drwy ymyriadau seicogymdeithasol, megis rheoli dicter ac emosiynau, datblygu sgiliau rhyngbersonol, datrys problemau cymdeithasol ac agweddau gwrthgymdeithasol[59, 60]. Mae hyn yn arbennig o wir am raglenni sy'n dilyn yr egwyddorion 'Risg, Angen ac Ymatebolrwydd.' Canfuwyd bod rhaglenni sgiliau gwybyddol generig a rhaglenni ymddygiadol gwybyddol wedi eu targedu'n benodol at ymddygiad treisgar yn lleihau aildroseddu. Mae'r ymyriadau mwyaf effeithiol yn ddwys o ran hyd sesiynau a hyd y cwrs, ac maent yn cynnwys hyfforddiant sgiliau gwybyddol, chwarae rôl ac atal rhag llithro'n ôl i droseddu. Ni welwyd bod addysg sylfaenol a hyfforddiant empathi yn cynyddu effeithiolrwydd ymyriadau sy'n

anelu at leihau ymddygiad treisgar[61]. Mae'r dystiolaeth yn llai cryf am raglenni sy'n benodol ar gyfer troseddwyr trais yn y cartref[62].

Trosedwyr sy'n dwyn, gan gynnwys byrgleriaid a lladron

Rydym angen deall yn well sut i leihau aildroseddu gan droseddwyr sy'n dwyn, yn arbennig byrgleriaid a lladron. Mae ffigyrau o'r Asiantaeth Driniaeth Genedlaethol (o 2013, rhan o Iechyd Cyhoeddus Lloegr) yn awgrymu bod lefel is o droseddau dwyn, megis dwyn o siopau a phrynu/gwerthu nwyddau wedi eu dwyn, yn gysylltiedig yn arbennig â dibyniaeth ar gyffuriau gyda rhwng traean a hanner y troseddau hyn yn cael eu cyflawni gan unigolion sy'n ddibynnol ar gyffuriau, ac mae'r mathau hyn o droseddu'n lleihau pan alluogir unigolion i oresgyn eu dibyniaeth[63]. Ond (er bod y dystiolaeth yn rhagarweiniol yn unig) mae'n ymddangos bod byrgleriaeth a lladrad, yn arbennig lladrad masnachol[64], yn llai cysylltiedig â dibyniaeth ar gyffuriau[65]. Gellir deall y troseddau hyn yn well fel troseddoldeb "gyrfaol" h.y. ffordd wedi ei dewis yn ymwybodol o gael gafael mewn buddion ariannol[66]. Gall y mathau o agweddau a gwerthoedd sy'n gysylltiedig â'r troseddau hyn gynnwys awydd cryf am gyfoeth ariannol[67] a chyfiawnhad bod trosedd o'r fath yn ffordd o gyflawni cydraddoldeb ariannol[68].

Mae dwy astudiaeth, un yng Nghanada ac un o Raglen Archrededig NOMS, wedi dangos nad oedd rhaglenni sgiliau gwybyddol yn effeithio ar aildroseddu ar gyfer pobl wedi eu heuogfarnu o fyrgleriaeth a lladrad[69]. Mae hyn yn awgrymu bod angen dulliau gwahanol arnom i ysgogi a hybu ymatalrwydd gyda phobl sy'n cyflawni'r troseddau hyn.

Troseddwyr Cyffuriau

Mae troseddwyr 'cyffuriau' yn cynnwys y rhai a euogfarnwyd o fewnforio/allforio, y rhai a euogfarwyd o gyflenwi cyffuriau (y mae eu difrifoldeb yn amrywio o bod ar raddfa fechan i raddfa fawr iawn), a'r rhai a euogfarnwyd am feddu ar gyffuriau. Mae'r dystiolaeth yn dangos y bydd y rhai a euogfernir am feddu ar gyffuriau a chyflenwi ar raddfa fechan yn cael eu helpu gan driniaeth am ddibyniaeth ar gyffuriau[70] a rhaglenni sgiliau gwybyddol[71]. Ond nid yw pawb sy'n cael eu heuogfarnu o droseddau sy'n gysylltiedig â chyffuriau o reidrwydd ag anghenion dibyniaeth neu driniaeth am ddefnyddio cyffuriau. Mae angen mwy o waith i ddeall y ffordd orau i hybu ymatalu ymysg y rheiny a euogfernir o droseddau mwy difrifol o gyflenwi cyffuriau gan gynnwys mewnforio/allforio.

Troseddwyr Moduro

Mae tystiolaeth gymysglyd ar effaith y rhaglen gyrru ac yfed a'i heffeithiau ar droseddau gyrru ac yfed dilynol[72] Mae rhaglenni sy'n cynnwys elfennau lluosog, yn arbennig y rhai sy'n cynnwys addysg a seicotherapi neu gwnsela, ynghyd â chyswllt goruchwylio i ddilyn, effaith fwy ar droseddau gyrru ac yfed sy'n dilyn na rhaglenni sy'n cynnwys elfennau unigol[73].

***Bwriad Comisiynu 5*: Sicrhau bod cyflenwi gwasanaethau'n ymateb i anghenion a nodweddion unigol i fwyhau canlyniadau**

Ymatebolrwydd ac amrywiaeth

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod gwasanaethau effeithiol yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion penodol (ac yn aml maent yn rhai lluosog) ac amgylchiadau cyfranogwyr unigol. Er enghraifft:

- Gall troseddwyr ag anableddau a/neu anawsterau dysgu[74] ei chael hi'n anodd i gael mynediad at ac elwa ar ddarpariaeth prif ffrwd heb roi ystyriaeth fwriadol i'w galluoedd a'u hanghenion. Mae enghreifftiau o sut dylai gwasanaethau troseddwyr gael eu teilwra'n cynnwys addasu deunyddiau ac ymyriadau, addasu arddull cyfathrebu ac ychwanegu adnoddau megis cefnogaeth un i un wedi ei thargedu
- Gall troseddwyr sy'n hoyw, lesbiad neu'n ddeurywiol deimlo wedi eu dieithrio mewn rhaglenni neu wasanaethau sy'n rhagdybio heterorywioldeb yn eu hamcanion, eu dulliau neu eu deunyddiau
- Gall problemau iechyd meddwl gael effaith o ansefydlogi. Mae sicrhau bod unigolion yn cofrestru â meddyg teulu ac yn cael mynediad at wasanaethau iechyd addas a helpu i gael mynediad at wasanaethau fel budd-daliadau, a phe bai angen, llety gyda chymorth felly yn gallu bod yn neilltuol o bwysig i'r grŵp hwn.

Mae'r adrannau isod yn rhoi rhywfaint o wybodaeth i helpu darparwyr ddeall rhai o anghenion gwahanol is-grwpiau a'r dystiolaeth ragarweiniol am sut y gallai gwasanaethau gael eu teilwra.

Merched

Mae dadansoddiad o'r boblogaeth garcharol a ddedfrydwyd a baich achosion ar gyfer Mehefin 2012 yn dangos fel a ganlyn:

- Fod traean o ferched, yn y carchar a'r rhai ar ddedfrydau cymunedol, yn y band risg isel o aildroseddu (sgôr OGRS o dan 25). Ymysg merched yn y carchar, gor-gynrchiolir grwpiau du a grwpiau ethnig lleiafrifol yn y band isaf hwn, gyda chyfran uchel ohonynt wedi eu heuogfarnu o fewnforio/allforio cyffuriau

- Ar gyfer lleoliadau cymunedol a charcharol, mae'r mwyafrif clir o ferched gyda'r tebygolrwydd uchaf un o aildroseddu (OGRS 90+) yn cael eu heuogfarnu o ddwyn o siopau

- Dedfrydir y mwyafrif o ferched yn y carchar am droseddu treisgar (37 y cant) neu am droseddau o ddwyn (29 y cant)

- Prin llai na hanner y carcharorion benywaidd (46 y cant yn y ddalfa a 43 y cant yn y gymuned) sy'n debygol o aildroseddu o fewn dwy flynedd ar ôl eu rhyddhau, a 29 y cant yn y ddalfa a 22 y cant yn y gymuned sy'n debygol o gael eu haileuogfarnu am drosedd dreisgar dros yr un cyfnod

- Y merched mwyaf tebygol o aildroseddu'n dreisgar yw'r rhai ag euogfarn gyfredol am ladrad, ac fe'u dilynir gan ferched ag euogfarnau treisgar cyfredol. Nid yw merched a garcharir am droseddau o ddwyn mor bell ar ei hôl hi yn nhermau eu risg o gyflawni trais yn y dyfodol. Mae gan bob merch â gorchymyn cymunedol a throsedd o ddwyn indecs tebygolrwydd o 20 y cant o gyflawni trosedd dreisgar dros y cyfnod o 2 flynedd sy'n dilyn.

- Yn y carchar, mae ychydig o dan un rhan o bump o ferched yn bwrw dedfrydau o lai na 12 mis. Mae'r mwyafrif yn bwrw dedfrydau o un i bedair blynedd (34 y cant) neu ddedfryd benodol o 4+ blynedd

(28.5 y cant). Mae merched ar ddedfrydau byr yn fwy tebygol o aildroseddu na merched ar ddedfrydau hir.

- Wrth edrych ar yr holl faich achosion yn y gymuned, roedd 35 y cant o ferched wedi eu heuogfarnu o drosedd dreisgar; roedd gan 36 y cant euogfarnau blaenorol am droseddau o ddwyn. Ar gyfer y rheini oedd yn bwrw gorchmynion cymunedol (12,102) dim ond 11 y cant oedd wedi eu heuogfarnu o drosedd dreisgar ac roedd gan 40 y cant drosedd indecs o ddwyn

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod rhai anghenion penodol ar gyfer merched a bod rhai anghenion yn fwy perthnasol i ferched na dynion ar ôl cymryd i ystyriaeth y risg a'r math o droseddu. Gan hynny, efallai bydd angen dylunio neu newid rhai ymyriadau a gwasanaethau i gyfateb i anghenion penodol merched, er yr ymddengys bod rhai ymyriadau'n gweithio'n dda gyda merched a dynion. Ar hyn o bryd mae'r dystiolaeth yn awgrymu fel a ganlyn:

- Mae camddefnyddio cyffuriau, yn arbennig cyffuriau Dosbarth A, yn ffactor criminogenig pwysig i droseddwyr benywaidd[75]; gall merched gyflawni trosedd hefyd i gefnogi camddefnyddio cyffuriau gan eraill. Mae merched yn gyffredinol yn cael eu hysgogi i gymryd rhan mewn triniaeth am ddibyniaeth ar gyffuriau

- Mae camddefnyddio alcohol hefyd yn ffactor pwysig (yn arbennig mewn perthynas â thrais). Cysylltir gor-yfed yn arbennig ag aildroseddu gan garcharorion benywaidd

- Mae merched yn y carchar sy'n dioddef o gyfuniad o bryder ac iselder yn fwy tebygol o aildroseddu

- Dangoswyd bod y pwysau o fod yn rhiant (brwydro â rhianta) a diffyg hunan effeithiolrwydd (cred merched na allant reoli eu bywydau ac na allant gyflawni eu nodau) yn berthnasol i aildroseddu[76]

- Mae rhaglenni sgiliau gwybyddol sydd ar hyn o bryd yn cael eu cyflenwi i ddynion a merched yn lleihau cyfraddau aildroseddu ymysg carcharorion benywaidd, yn enwedig troseddwyr rhyw, treisgar a throseddau nad ydynt yn ymwneud â dwyn. Mae llai o effaith ar droseddwyr sy'n lladrata a rhai sy'n dwyn

- Gall targedu anghenion addysgiadol merched leihau aildroseddu

Troseddwyr sy'n oedolion ifanc gwrywaidd

Oedolion ifanc gwrywaidd yw'r troseddwyr hynny yn y categori oedran 18-20. Ond at ddibenion y ddogfen hon, fe gynhwysir tystiolaeth yn ymwneud â'r grŵp oed ehangach 18-25 yn ogystal. Gall ymyrryd ag oedolion ifanc o bosibl ymyrryd ar yr hyn a allasai fod fel arall yn yrfa droseddol faith, a thrwy hynny arbed swm sylweddol o arian i'r trethdalwr a niwed i ddioddefwyr yn y dyfodol.

Mae gan droseddwyr ifanc rai anghenion gwahanol i oedolion hŷn. Yn ôl yr asesiadau OASyS o'r baich achosion ym Mehefin 2012, o'u cymharu ag oedolion gwrywaidd hŷn, mae troseddwyr sy'n oedolion ifanc:

- Yn risg sylweddol uwch na'r boblogaeth o oedolion hŷn

- Yn cael eu hasesu'n llawer llai aml fel rhai sydd ag anawsterau gyda pherthnasoedd sy'n gysylltiedig â'u troseddu neu fel rhai sydd â llety ansefydlog
- Yn cael eu dedfrydu'n amlach am droseddau treisgar
- Yn rhai sydd â gwahanol batrymau o ddefnyddio cyffuriau. Dangosodd astudiaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Arolwg Lleihau Troseddau Carcharorion (SPCR)[77] mai er bod y mwyafrif o droseddwyr sy'n oedolion ifanc wedi defnyddio cyffuriau, maent yn defnyddio cyffuriau gwahanol i oedolion hŷn ac mae eu defnydd o gyffuriau yn ymddangos yn llai difrifol (er enghraifft, mae llai ohonynt yn chwistrellu cyffuriau, roedd llai ohonynt wedi defnyddio cyffuriau yn y pedair wythnos cyn bod yn y ddalfa). Pan asesir troseddwyr sy'n oedolion ifanc gan OASys fel rhai sy'n gwneud defnydd pryderus o gyffuriau, mae hyn fel rheol yn cyfeirio at eu defnydd o ganabis - eu dewis gyffur o bell ffordd.
- Yn rhai sydd â gwahanol batrymau o ddefnydd o alcohol. Mae canfyddiadau'r SPCR yn awgrymu mai ar gyfer troseddwyr sy'n oedolion ifanc bod hyn **yn fwy tebygol o gymryd ffurf gor-yfed yn hytrach na dibyniaeth ar alcohol**. Er bod mwy o sôn am oedolion ifanc yn yfed yn drwm nag oedolion hŷn wedi ei gofnodi, roedd eu hyfed yn fwy tebygol o fod yn wythnosol nag yn ddyddiol

O ran eu natur, mae oedolion ifanc yn parhau i aeddfedu, yn niwrolegol ac yn seicolegol. Gall rhai o'u ffactorau risg tybiedig, megis byrbwyllter a rheolaeth emosiynol wael, gael eu hegluro'n syth trwy oedi yn y prosesau aeddfedu (ymatebion emosiynol ac ymdopi). Gallai aeddfedu ynddo'i hun fod yn ddigon i alluogi rhai dynion ifanc i ymatal rhag troseddu; ond gallai eraill ganfod eu hunain yn fwy ynysig yn gymdeithasol neu wedi eu llyncu gan ffordd o fyw droseddol.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod pwysigrwydd cymharol y gwahanol ffactorau risg ac amddiffynnol yn newid gydag oed. Gyda throseddwyr ifanc, mae teulu cefnogol yn ffactor amddiffynnol allweddol, a chanfuwyd bod ymyriadau sy'n cryfhau cysylltiadau teuluol yn lleihau aildroseddu. Ond erbyn 18 oed, mae dylanwad cyfoedion yn gryfach ac yn aml mae rhai troseddwyr sy'n oedolion ifanc yn cael eu hunain wedi eu maglu mewn cylchoedd a ffyrdd o fyw troseddol a all galedu agweddau troseddol. Mae agweddau troseddol, sgiliau datrys problemau gwael ac ymddygiad ymosodol yn berthnasol iawn mewn troseddwyr ifanc gwrywaidd, ac felly gwelir bod yr ymyriadau sy'n targedu'r clwstwr hwn o ffactorau risg yn hanfodol bwysig[78]. Mae un astudiaeth arbennig o gryf o'r UDA wedi canfod bod dynion ifanc o risg uchel yn elwa'n arbennig ar raglen gyflogi a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer parodrwydd am waith, profiad gwaith, a chymorth mewn canfod cyflogaeth barhaol[79].

Gall y cyfuniad o wahanol anghenion a lefel wahanol o aeddfedu olygu dylai rhai ymyriadau a gwasanaethau gael eu dylunio'n benodol ar gyfer oedolion iau. Fodd bynnag, mae hefyd yn wir bod ymyriadau, fel rhaglenni sgiliau gwybyddol, a gyflenwir ar hyn o bryd i oedolion hŷn ac oedolion iau fel ei gilydd, yn gweithio cystal gyda phob oedran.

Carcharorion ar ddedfrydau byr (rhai a ddedfrydwyd i lai na 12 mis o garchar)

Mae proffil y carcharorion ar ddedfrydau byr (SSPau) a gymerwyd o faich gwaith y carchar a'r gwasanaeth prawf ar 30 Mehefin 2012 yn dangos bod gan SSPau at ei gilydd debygolrwydd uchel iawn o aildroseddu (roedd gan 78 y cant o ddynion 21 oed a throsodd, 92 y cant o ddynion rhwng 18 a 20 oed ac 84 y cant o ferched sgorau OGRS o dros 50 y cant). Y math mwyaf cyffredin o drosedd ymysg dynion oedd trais yn erbyn y person, y drosedd fwyaf cyffredin nesaf oedd dwyn o siopau a throseddau o ddwyn llai niweidiol. Ar gyfer merched roedd y patrwm hwn dipyn bach yn wahanol gydag ychydig dros draean yn cael eu heuogfarnu o ddwyn o siopau, yna 18 y cant yn cael eu heuogfarnu o drais, yn cael eu dilyn gan dwyll a ffugio. Euogfarnwyd wyth allan o ddeg o ddynion a merched a oedd â sgorau OGRS o 90% neu fwy o droseddau o dwyn. O'u cymharu â throseddwyr hŷn, roedd gan fwy o oedolion ifanc gwrywaidd oedd ag OGRS uchel iawn drosedd indecs am drais ond tueddai hyn i fod am drefn gyhoeddus neu ddifrod troseddol yn hytrach na thrais yn erbyn y person.

Carcharorion ar ddedfrydau amhenodol (troseddau am oes a throseddau ISP)

Mae'r proffil o garcharorion ar ddedfrydau amhenodol (ISPau) a gymerwyd o faich gwaith y carchar ar 30 Mehefin 2012 yn dangos nad yw oedolion gwrywaidd sy'n bwrw **dedfryd am oes** yn y ddalfa yn gyffredinol ar risg uchel iawn o aildroseddu. Amcangyfrifir bydd 39 y cant yn cael eu heuogfarnu am unrhyw drosedd yn y ddwy flynedd ar ôl eu rhyddhau - 28 y cant am drosedd dreisgar.

Wrth reswm, mae ganddynt drosedd gyfredol ddifrifol: Mae gan 86 y cant o droseddwyr am oes euogfarnau am drais ac 11 y cant pellach am drosedd rhyw (yn nhrefn amlder, llofruddiaeth, ymgais i lofruddio, dynladdiad, anafu, treisio rhyw, herwgipio ac arswn yw'r troseddau a welir fynychaf ymysg troseddwyr am oes). Mae'r tri y cant o droseddwyr am oes â throseddau indecs o ladrata, dwyn neu droseddau eraill ar risg uwch o aildroseddu cyffredinol a threisgar na charcharorion eraill a ddedfrydwyd am oes.

Mae oedolion gwrywaidd sydd ar **ddedfrydau amhenodol er mwyn gwarchod y cyhoedd** (IPPau) ar risg uwch na charcharorion am oes - bydd o gwmpas 48 y cant yn cael eu hailddedfrydu o fewn dwy flynedd o'u rhyddhau - 38 y cant ar gyfer ail drosedd dreisgar . Yn wahanol i garcharorion am oes, mae gan ychydig o dan hanner IPPau drosedd indecs dreisgar, tra bod gan 30 y cant drosedd rhyw gyfredol. Mae IPP gydag euogfarn bresennol am ladrad yn fwyaf tebygol o aildroseddu'n dreisgar tra bod IPPau am foduro a dwyn yn gyffredinol yn fwyaf tebygol o aildroseddu.

1 Graddfa Aildroseddau Grwpiau Troseddwyr (Offender Group Reconviction Scale).

2 Dull ystadegol o gyfuno tystiolaeth o ddwy astudiaeth neu ragor er mwyn gwneud y canlyniadau'n fwy dibynadwy yw Meta-ddadansoddi.

[3] www.justice.gov.uk/publications/research-and-analysis/noms

[4] Paparozzi, M.A. & Gendreau, P. (2005). An intensive supervision programme that worked: Service delivery, professional orientation and organizational effectiveness. *The Prison Journal, 85,* 445-466.

[5] Bewley, H. (2012). The effectiveness of different community order requirements for offenders who received an OASys assessment. Ministry of Justice Research Series 17/12.

[6] Wood, M., Cattell, J., Hales, G., Lord, C., Kenny, T. & Capes, T. (2013). *Reoffending by offenders on Community Orders: Preliminary findings from the Offender Management Community Cohort Study*. Ministry of Justice Analytical Summary.

[7] Cattell, J., Mackie, A., Prestage, Y., & Wood. M. (2013). *Results from the Offender Management Community Cohort Study (OMCCS): Assessment and Sentence Planning.* Ministry of Justice Analytical Series.

[8] Sorsby, A., Shapland, J., Farrall, S., McNeill, F., Priede, C., & Robinson, G. (2013). *Probation staff views of the Skills for Effective Engagement Development (SEED) Pilot.* NOMS Analytical Summary.

[9] Crewe, B., Liebling, A. and Hulley, S. (yn y Wasg**)** Heavy-light, absent-present: re-thinking the 'weight' of imprisonment. *British Journal of Sociology*. Liebling. A., cynorthwywyd gan Arnold, H. (2004).*Prisons and their moral performance*. Crewe, B., Liebling, A. & Hulley, S. (2011). Staff culture, use of authority and prisoner quality of life in public and private sector carchardai. *Australian and New Zealand Journal of Criminology, 44*, 94-115.

[10] Blagden, N.J. (2013). Climate change? Investigating the rehabilitative climate of a therapeutically-orientated prison: A mixed methods case study. Submitted for publication. Van der Helm, P., Stams, G. J. & Van der Laam, P. (2011). Measuring Group Climate in Prison. *The Prison Journal, 91*, 158-176. Crewe, B., Liebling, A. and Hulley, S. (yn y Wasg**) '**Heavy-light, absent-present: re-thinking the 'weight' of imprisonment'. *British Journal of Sociology*.

[11] Blagden, N.J. (2013). Climate change? Investigating the rehabilitative climate of a therapeutically-orientated prison: A mixed methods case study. Submitted for publication. Van der Helm, P., Stams, G. J. & Van der Laam, P. (2011). Measuring Group Climate in Prison. *The Prison Journal, 91*, 158-176.Crewe, Liebling & Hulley (yn y Wasg). Heavy-light, absent-present: re-thinking the 'weight' of imprisonment. *British Journal of Sociology*.

[12] Hulley, S., Liebling, A. & Crewe, B. (2011) Respect in prisons: Prisoners' experiences of respect in public and private sector prisons. *Criminology and Criminal Justice, 12*, 3-23.

[13] Trotter, C. (2009). Pro social modelling. *European Journal of Probation, 1*, 142-152.

[14] Trotter, C. J., (1990). Probation can work: A research study using volunteers. *Australian Journal Of Social Work,* 43, 2, 13-18. Trotter, C. (1996). The impact of different supervision practices in community corrections. *Australian and New Zealand Journal of Criminology,* 29, 1, 29-46. Trotter, C. (2004). *Helping Abused Children and their Families.* Allen and Unwin Sydney.

[15] Bonta, J., Bourgon, G., Rugge, T., Scott, T-L., Yessine, A.K., Gutierrez, L. & Li, J. (2010). The Strategic Training Initiative yn Community supervision: Risk-Need-Responsivity in the Real World. Corrections Research User Report 2010-01. Public Safety Canada. Lawrlwythwyd o: www.publicsafety.gc.ca

[16] Bourgon, G., Gutierrez, L. & Ashton, J. (2012). From case management to change agent: The evolution of "What works" community supervision. *Corrections Research User Report 2012-01*, Public Safety Canada.

[17] Burnett, R. & Maruna, S. (2004). So 'Prison Works', Does It? The Criminal Careers of 130 Men Released From Prison under Home Secretary Michael Howard. *Howard Journal of Criminal Justice, 43*, 390-404. Gweler hefyd Bottoms, A. & Shapland, J. (2010). Steps toward desistance among male young adult recidivists. Yn S. Farrall, R. Sparks, S. Maruna & M. Hough, (Eds.) *Escape Routes: Contemporary perspectives on life after punishment*. London: Routledge.

[18] LeBel, T.P., Burnett, R., Maruna, S. and Bushway, S. (2008) 'The "Chicken and Egg" of Subjective and Social Factors in Desistance From Crime'. *European Journal of Criminology* 5 (2) 131–59.

[19] Rex, S. (1999) 'Desistance from Offending: Experiences of Probation', *Howard Journal of Criminal Justice,* 36(4): 366–83.

[20] McNeill, F., Batchelor, S., Burnett, S. and Knox, J. (2005) *21st Century Social Work. Reducing Reoffending: Key Practice Skills.* Edinburgh: The Scottish Executive.

[21] Attrill, G. & Liell, G. (2007). Offenders views on risk assessment. (tt. 191-201) yn N. Padfield (ed.) *Who to release? Parole, fairness and criminal justice*. Cullompton, UK: Willan.

[22] Maruna, S. & LeBel, T. (2010). "The Desistance Paradigm in Correctional Practice: From Programs to Lives" in McNeill, F. Raynor, P., & Trotter, C. (Eds.) *Offender supervision: New Directions in Theory, Research and Practice.* Cullompton, UK: Willan.

[23] Process evaluation of five integrated offender management areas, Ministry of Justice Research Series 4/11: www.gov.uk/government/publications/process-evaluation-of-integrated-offender-management-areas

[24] Mae'r eitemau yn y Tabl hwn gan fwyaf wedi eu seilio ar "Wyth ffactor risg fawr ar gyfer aildroseddu Andrews a Bonta (2010), gyda rhai newidiadau (e.e. rydym wedi rhannu eu ffactor "Camddefnyddio sylweddau" i ddau ffactor "Camddefnyddio cyffuriau" a "Chamddefnyddio alcohol"). Andrews, D.A. & Bonta, J. (2010). *The Psychology of Criminal Conduct*. Andersen Publishing. Gweler hefyd Andrews, D.A., Bonta, J. & Hogue, J.S. (2006). The recent past and near future of risk and/or need assessment. *Crime and Delinquency, 52*, 7-27.

[25] Yn y cyd-destun hwn, mae'r term "beth sy'n gweithio?" o ran tystiolaeth yn cyfeirio at y corpws o gyhoeddiadau academaidd sy'n ateb y cwestiwn o effeithiolrwydd ymyriadau a ddyluniwyd i leihau aildroseddu.

[26]Lipsey, M.W., Landenberger, N.A. & Wilson, S.J. (2007). Effects of cognitive behavioural programmes for criminal offenders. Campbell Collaboration.

[27] Goggin & Gendreau (2006) 'The implementation of quality services in offender rehabilitation programs', yn Hollin & Palmer (Eds.), *Offending behaviour programmes: Development, application, & controversies* (pp. 69-111). Chichester: Wiley.

[28] Lowenkamp, Latessa & Smith (2006). Does correctional program quality really matter? The impact of adhering to the pri nciples of effective interventions. *Criminology & Public Policy*, 5, 575-594.

[29] Landenberger & Lipsey (2005) 'The positive effects of cognitive–behavioral programs for offenders: A meta-analysis of factors associated with effective treatment', *Journal of Experimental Criminology*, 1(4), 451-476.

[30] Tompson, L. & Chainey, S. (2013). Integrating environmental considerations into prisoner risk assessments. *European Journal of Probation, 5,* 66-80. `Kubrin, C.E. & Stewart, E.A. (2006). Predicting who reoffends: The neglected role of neighborhood context in recidivism studies. *Criminology, 44*, 165-197. Mears, D.P., Wang, X., Hay, C. & Bales, W.D. (2008). Social ecology and recidivism: Implications for prisoner re-entry. *Criminology, 46*, 301-340.

[31] Fel y'u diffinir ym manyleb gwasanaethau NOMS, 'Deliver Supervision Requirement' a 'Deliver Supervision on Licence', y ddau ar gael ar: www.justice.gov.uk/about/noms/noms-directory-of-services-and-specifications.

[32] Lai, K. (2013). *Does supervision after release from prison reduce reoffending?* Ministry of Justice Analytical Summary.

[33] Barnes, G.C., Ahlman, L. M., Gill, C., Sherman, L.W., Kurtz, E. & Malevestuto, R. (2010). Low-intensity community supervision for low risk offender: a randomized controlled trial. Journal of Experimental Criminology, 6, 159-189.

[34] Pearson, D.A.S., McDougall, C., Kanaan, M., Bowles, R.A. & Togerson, R. (2011). Reducing criminal recidivism: evaluation of Citizenship, an evidence-based probation goruchwyliaeth supervision process. *Journal of Experimental Criminology, 7,* 73-102.

[35] E. K. Drake (2011). *"What works" in community supervision: Interim report* (Document No. 11-12-1201). Olympia: Washington State Institute for Public Policy.

[36] Gendreau, P., Goggin, C., Cullen, F. C. & Andrews, D.A. (2000). The effects of community sanctions and incarceration on recidivism. *Forum on Corrections Research, 12*, 10-13.

[37] Petrosino, A., Turpin-Petrosino, C., & Buehler, J. (2003). *"Scared-straight" and other juvenile awareness programs for preventing juvenile delinquency (Review)*. Yn: The Cochrane Library. Issue 4. Chichester (UK): John Wiley and Sons.

[38] Farrington, D. P. & Welsh, B. C. (2005). Randomized experiments in criminology: What have we learned in the last two decades? *Journal of Experimental Criminology, 1*, 9–38.

[39] Gendreau, P., Goggin, C., Cullen, F. C. & Andrews, D.A. (2000). The effects of community sanctions and incarceration on recidivism. *Forum on Corrections Research, 12*, 10-13. Mackenzie, D. L. (2000). Evidence based corrections: Identifying what works. Crime and Delinquency, 46, 457-471.

[40] Drake, E. K., Aos, S., & Miller, M. (2009). Evidence-based public policy options to reduce crime and criminal justice costs: Implications in Washington state. *Victims and Offenders, 4*, 170-196. Gweler hefyd Petersilia, J. (1999). A decade with experimenting with intermediate sanctions: What have we learned? *Perspectives, 23*, 39-44.

[41] Farrington, D. P. & Welsh, B. C. (2005). Randomized experiments in criminology: What have we learned in the last two decades? *Journal of Experimental Criminology, 1*, 9–38.

[42] Pearson, F.S. & Lipton, D. L. (1999). A meta-analytic review of the effectiveness of corrections-based treatments for drug abuse. *The Prison Journal, 79*, 384 -410.

[43] Mitchell, O., Wilson, D. W., & MacKenzie, D. L. (2007).Does incarceration-based drug treatment reduce recidivism? A meta-analytic synthesis of the research. *Journal of Experimental Criminology, 3,* 353–375.

[44] Mackenzie, D.L, Bierne, D, & Franke, D. (2007). An experimental study of a therapeutic boot camp: Impact on impulses, attitudes and recidivism. *Journal of Experimental Criminology*, 3(3): 221-246.

[45] Franke, D., Bierie, D., & Mackenzie, D. L. (2010). Legitimacy in corrections: A randomized experiment comparing a boot camp with a prison. *Criminology & Public Policy, 9*, 89-117.

[46] Farrington, D.P., Ditchfield, J., Hancock, G., Howard, P.D., Joliffe, D., Livingston, M.S. & Painter, K.A. (2002). *Evaluation of two intensive regimes for young offenders.* Home Office Research Study 239.

[47] Mayet, S., Farrell, M, Ferri, M., Amato, L. & Davoli, M (2004). Psychosocial treatment for opiate abuse and dependence. Cochrane Database of Systematic Reviews.

[48] Landenberger, N., & Lipsey, M. (2005). The positive effects of cognitive-behavioral programs for offenders: A meta-analysis of factors associated with effective treatment. *Journal of Experimental Criminology*, *1*(4), 451–476.Gweler hefyd Lipsey, M.W., Landenberger, N.A. & Wilson, S.J. (2007). Effects of cognitive behavioural programmes for criminal offenders. Campbell Collaboration.

[49] Lowenkamp, C.T., Latessa and Holsinger (2006). The Risk Principle in Action: What Have We Learned from 13,676 Offenders and 97 Correctional Programs? *Crime and Delinquency*, 51(1):1-17.

[50] Lowenkamp, C.T. & Latessa, E.J. (2004). Understanding the risk principle: How and why correctional interventions can harm low risk offenders. *Topics in Community Corrections,* 3-8.

[51] Robinson, D. (1995). The impact of cognitive skills training on post-release recidivism among Canadian federal offenders. Correctional Service Canada, Correctional Research & Development.

[52] Travers, R., Mann, R.E. & Hollin, C.R. Who benefits from cognitive skills interventions? Cyflwynwyd I'w gyhoeddi.

[53] Hanson, Gordon, Harris, Marques, Murphy, Quinsey, & Seto, (2002). First report of the collaborative outcome data project on the effectiveness of treatment for sex offenders. Sexual Abuse: A Journal of Research and Treatment, 14, 169-194. Aos, Miller & Drake (2006) op cit.; Lösel & Schmucker (2005).The effectiveness of treatment for sexual offenders: A comprehensive meta-analysis. Journal of Experimental Criminology, 1, 117-146.

[54] Lösel & Schmucker (2005).The effectiveness of treatment for sexual offenders: A comprehensive meta-analysis. Journal of Experimental Criminology, 1, 117-146.

[55] Wilson, R. J., Picheca, J.E. & Prinzo, M (2007). Evaluating the Effectiveness of Professionally-Facilitated Volunteerism in the Community-Based Management of High-Risk Sexual Offenders: Part One – Effects on Participants and Stakeholders. *The Howard Journal, 46*, 289-302.

[56] Aos, S., Miller, M. & Drake, E. (2006). Evidence based adult corrections programs: What works and what does not. Olympia: Washington State Institute for Public Policy.

[57] Hanson, Bourgon, Helmus, & Hodgson (2009) The principles of effective correctional treatment also apply to sexual offenders: A meta-analysis. *Criminal Justice and Behavior, 36*, 865-891.

[58] Mailloux, Abracen, Serin, Cousineau, Malcolm, & Looman (2003) 'Dosage of treatment to sexual offender: Are we overprescribing?' *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology, 47,* 171-184; Lovins, Lowenkamp, & Latessa (2009) Applying the risk principle to sex offenders. Can treatment make some sex offenders worse? *The Prison Journal, 89*, 344-357; Friendship, Mann, & Beech (2003) Evaluation of a National Prison-based Treatment Program for Sexual Offenders in England and Wales. *Journal of Interpersonal Violence, 18,* 744-759.

[59] McGuire (2008) A review of effective interventions for reducing aggression and violence. *Philosophical Transactions of the Royal Society B, 363*, 2577-2597.

[60] Dowden, C. & Andrews, D.A. (2000). Effective correctional treatment and treisgar reoffending: A meta analysis. *Canadian Journal of Criminology*, 449-467.

[61] Jolliffe & Farrington (2007). *A systematic review of the national and international evidence on the effectiveness of interventions with treisgar offenders*. Research Series 16/07. London: Ministry of Justice.

[62] Aos, S., Miller, M. & Drake, E. (2006). Evidence based adult corrections programs: What works and what does not. Olympia: Washington State Institute for Public Policy.

[63] National Treatment Agency for Substance Misuse (2012). *Estimating the crime reduction benefits of drug treatment and recovery*. Lawrlwythwyd o www.nta.nhs.uk.

[64] Gill, M. (2000). Commercial Robbery. London: Blackstone Press Ltd.

[65] National Treatment Agency for Substance Misuse (2012). *Estimating the crime reduction benefits of drug treatment and recovery*. Lawrlwythwyd o www.nta.nhs.uk.

[66] Nee, C. & Meenaghan, A. (2006). Expert decision-making in burglars. *British Journal of Criminology, 46,* 935-949.

[67] Gill, M. (2000). *Commercial robbery*. Blackstone.

[68] Willott, S. & Griffin, C. (1999). Building your own lifeboat: Working class male offenders talk about economic crime. *British Journal of Social Psychology, 38*, 445-460.

[69] Travers, R., Mann, R.E. & Hollin, C.R. (2013), Who benefits from cognitive skills programs? Differential impact by risk and offence type. Cyflwynwyd i'w gyhoeddi. Robinson, D. (1995). *The impact of cognitive skills training on post-release recidivism among Canadian federal offenders* (Report No R-41). Ottawa: Public Safety Canada.

[70] National Treatment Agency for Substance Misuse (2012). *Estimating the crime reduction benefits of drug treatment and recovery*. Lawrlwythwyd o www.nta.nhs.uk.

[71] Travers, R., Mann, R.E. & Hollin, C.R. (2013) Who benefits from cognitive skills programs? Differential impact by risk and offence type. Cyflwynwyd i'w gyhoeddi.

[72] Am drosolwg, gweler Davis et al (2008) A Synthesis of literature on the effectiveness of community orders, RAND Europe, commissioned by the National Audit Office: www.rand.org/pubs/technical_reports/TR518.html; Gweler hefyd Hollis (2007) Reconviction Analysis of Programme data using Interim Accredited Programmes Software (IAPS), RDS NOMS Research and Evaluation; Davies & Smith (2003) Reconvictions of drink/drive course attenders: a six year follow up, Road Safety Division, Department for Transport.

[73] Wells-Parker, Bangert-Drowns, McMillen & Williams (1995). Final results from a meta-analysis of remedial interventions with drink/drive offenders. *Addiction, 9*, 907-926.

[74] Gweler cyfeirlyfr Adran Iechyd Lloegr 'Positive Practice Positive Outcomes' (DH 2011) am ddiffiniad o anableddau ac anawsterau dysgu: www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_124743.

[75] Andrews, D. A., Guzzo, L., Raynor, P., Rowe, R.C., Rettinger, L. J., Brews, A. & Wormith, J. S. (2012). Are the major risk/need factors predictive of both female and male reoffending?: A test with the eight domains of the Level of Service/Case Management Inventory. *International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology, 56*, 113-133.

[76] Van Voorhis, P., Wright, E. M., Salisbury, E. & Bauman, A. (2010). Women's risk factors and their contributions to existing risk/needs assessment: The current status of a gender-responsive supplement. *Criminal Justice and Behavior, 37*, 261-288.

[77]Stewart, D. (2008). The problems and needs of newly sentenced offenders: Results from a national survey. Ministry of Justice Research Series, 16/08. Noder mai cafyddiadau dros dro yw'r rhain a gallent newid.

[78] Van der Put, C. E., Stams, G. J. J .M., Hoeve, M., Dekovic, M., Spanjaard, H.J.M., Van der Laam, P. H. & Barnoski, R. P. (2012). Changes in the relative importance of dynamic risk factors for recidivism during adolescence. International Journal of Offender Therapy and Comparative Criminology, 56, 296-317.

[79] Zweig, J., Yahner, J., & Redcross, C. (2011). For whom does a transitional jobs program work? *Criminology & Public Policy*, *10*(4), 945-972.